British Waterways
Dyfrffyrdd Prydain

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2009/10

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009/2010
Dyfrffyrdd Prydain

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Senedd y DU yn unol ag adran 24 (3) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd y DU yn unol ag adran 27 (8) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Senedd yr Alban yn unol ag adran 24 (3) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd yr Alban yn unol ag adran 27 (8c) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Heddiw, mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn byw a gweithio yn ymyl camlesi ac afonydd y wlad ac yn eu mwynhau. Ein her fwyaf yw sicrhau eu dyfodol ar adeg o bwysau aruthrol ar wariant cyhoeddus. Dyna pam rydym wedi gwneud y cynnig radical o symud o fod o dan reolaeth y wladwriaeth i fod yn ymddiriedolaeth elusennol.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau newid mawr yn ein perthynas â'n holl randdeiliaid. Bydd yn golygu y gellir mynd ati'n frwdfrydig ac egnïol yn lleol i greu dyfodol cynaliadwy ar gyfer camlesi ac afonydd y wlad. Mae hynny'n argoeli'n gyffrous iawn.

Mae'r cynnig hwn wedi arwain at drafodaethau gwych dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae wedi sicrhau cefnogaeth y tair plaid wleidyddol fwyaf yn y DU. Rydym wedi cyflawni llawer wrth esbonio sut gall y dyfrffyrdd weithredu fel elusen. Wrth gwrs, mae llawer o waith i'w wneud o hyd os ydym am roi sicrwydd i'r cyhoedd, defnyddwyr y dyfrffyrdd a Llywodraethau'r DU a'r Alban mai dyma'r cam cywir ar gyfer dyfodol y rhwydwaith. Er hynny, mae brwdfrydedd pobl ynglŷn â'r cynnig wedi creu cryn argraff arnom ac mae'r gefnogaeth rydym wedi'i chael wedi bod yn galonogol iawn.

Mae rhoi statws newydd sbon i'r dyfrffyrdd yn golygu newid mawr i Ddyfrffyrdd Prydain ac i'n perthynas â'r miliynau o bobl sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd bob blwyddyn a chyda'n partneriaid, ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid uniongyrchol. Er mwyn i lywodraethau drosglwyddo grym i bobl, cymunedau a chyrff rhanddeiliaid, byddai angen trosglwyddo cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrifoldeb ariannol. Ni fyddai modd gwario'n ddi-ben-draw! Byddai angen troi syniadau a dyheadau yn arian a gweithgareddau i gynnal a chadw, ymestyn a gwella ein camlesi a'n hafonydd. Ar hyn o bryd, mae yna ddiffyg cyllid yng Nghymru a Lloegr, ac mae angen i'r holl randdeiliaid, yn enwedig gwirfoddolwyr a sefydliadau codi arian, gyfrannu at y dasg o fynd i'r afael â'r bwlch hwn.
Mae'r nod o gyflawni rhwydwaith hunangynhaliol sy'n atebol i randdeiliaid yn werth yr her anochel sydd ynghlwm wrth y dasg.

Cynyddu poblogrwydd a chymorth

Gyda'r nod strategol hwnnw mewn golwg, mae'n wych nodi bod 13 miliwn o bobl, cynnydd o 26% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, wedi ymweld â'r dyfrffyrdd dros 380 miliwn o weithiau y llynedd. Cynyddodd canran yr ymwelwyr a fyddai'n argymell y profiad i eraill i dros 90%. Cynyddodd nifer y cychod trwyddedig i 34,944. Cyrhaeddodd e-ddeiseb ar wefan Stryd Downing o blaid Dyfrffyrdd Prydain yn cadw ei waddol eiddo y pump uchaf mewn llai na mis. Mae'r cymorth rydym yn ei dderbyn a'r diddordeb yn y dyfrffyrdd mor fawr ag erioed.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd agor Loc Three Mills ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd, gan ddarparu porth i safle'r Gemau Olympaidd ac ardal adfywio Stratford.

Mae gwelliannau eraill i lociau a choredau wedi adfer mordwyo a mynediad cyhoeddus i ran bwysig o ardal hanesyddol Afonydd Bow Back. Gall dyfrffyrdd ardal y Gemau Olympaidd, ynghyd â dyfrffyrdd ledled y DU, wneud cyfraniad allweddol at y digwyddiad hwn a'i etifeddiaeth barhaol.

O ran treftadaeth, mae penderfyniad UNESCO i ddyfarnu Statws Treftadaeth y Byd i Draphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte wedi rhoi campwaith Telford ar yr un llwyfan â'r Taj Mahal a'r Acropolis. Roedd hon yn gamp wych i'r partneriaid cymunedol a gyfrannodd, ac yn sêl bendith heb ei ail gan yr arbenigwyr yn UNESCO. Yn y cyfamser, penderfynwyd trwy bleidlais mai'r gwaith o adnewyddu Basnau Camlas Stourport oedd prosiect gorau Cronfa Dreftadaeth y Loteri y llynedd.

Perthnasol i heddiw

Ond mae ein camlesi'n fwy na strwythurau treftadaeth gwych.
Mae ganddynt gyfraniad i'w wneud at ein cymdeithas fodern y tu hwnt i weithgareddau hamdden. Mae ganddynt rôl amgylcheddol hanfodol, a rôl bwysig mewn perthynas ag addysg ac iechyd. Mae llawer mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r Waterways Action Squad, a ddenodd 270 o wirfoddolwyr yn y chwe mis cyntaf ar brosiect a noddir gan y Bank of America yng Ngogledd-orllewin Lloegr, wrthi'n gweithio gyda phobl ifanc ar bopeth o farchnata i osod gwrychoedd ac o arwain teithiau cerdded amgylcheddol i lanhau camlesi. Po fwyaf y bydd pobl ifanc yn teimlo bod y gamlas ar eu cyfer nhw ac yn eiddo iddyn nhw, po fwyaf y byddant yn awyddus i'w gwarchod ar gyfer y dyfodol.

Masnachol

Wrth gwrs, mae'r dirwasgiad economaidd wedi cael effaith andwyol ar ein gweithgareddau masnachol. Roedd incwm yn is na'r disgwyl, yn enwedig mewn perthynas â mentrau, ond rydym yn hyderus ynglŷn â'r rhagolygon hirdymor. Mae 50 y cant o gynllun datblygu eiddo preswyl ISIS ym Manceinion wedi'i werthu. Mae cynllun tebyg wedi'i lansio yn Granary Wharf yn Leeds, ac mae Cyfnod 1 wedi gwerthu'n dda. Mae'r datblygiad eiddo swyddfa yn Edinburgh Quay wedi'i osod a'i werthu ac mae caniatâd cynllunio wedi'i gael ar gyfer dau gyfnod cyntaf datblygiad sylweddol Wood Wharf yn Llundain. Agorwyd canolfan siopa Gloucester Quays gan Gok Wan ym mis Mai 2009, ac mae'n cyfrannu at y gwaith parhaus o adfywio Dociau Caerloyw.
Rydym yn disgwyl i'r 18 mis nesaf fod yn llawn her, ond byddwn yn parhau i geisio dod o hyd i ffyrdd arloesol o ennill mwy o incwm o'n hasedau, er enghraifft, trwy ynni gwyrdd, lle rydym wedi dod yn un o randdeiliaid cyd-fenter microgynhyrchu sy'n canolbwyntio ar ein dyfrffyrdd.

Tom Rolt

Mae eleni'n ganmlwyddiant geni Tom Rolt, (yr arloeswr gweithgar) a gydsefydlodd y Gymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol (IWA) ac awdur y llyfr hynod ddylanwadol 'Narrow Boat'. I ddathlu'r garreg filltir hon, rydym yn gweithio gyda'r IWA ac Ymddiriedolaeth y Dyfrffyrdd (TWT) i gefnogi nifer o ddathliadau yn cynnwys gŵyl gerddoriaeth o dan ofal y to iau. Rwy'n hynod falch o'n gorffennol.
Mae'n rhaid i ni warchod ein dyfrffyrdd, ond ein her fwyaf yw sicrhau ein bod yn addasu fel y gallwn ymateb i gyfleoedd a heriau'r dyfodol a sicrhau ein bod yn berthnasol i'r oesoedd a ddel yn ogystal â'r gorffennol.

Cymorth Llywodraeth y DU

Hoffwn ddiolch i Huw Irranca-Davies AS am ei frwdfrydedd a'i gefnogaeth yn ei rôl fel y Gweinidog dros Ddyfrffyrdd Mewndirol yng Nghymru a Lloegr. Ym mis Mai 2010, penodwyd Richard Benyon AS fel y gweinidog newydd. Yn ogystal â bod yn AS ar gyfer tref Newbury, sy'n sefyll ar lan camlas, mae Richard hefyd yn gefnogwr brwd o bysgota, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gydag ef yn y dyfodol.
Hoffwn hefyd ddiolch i'n Gweinidog yn yr Alban, Stewart Stevenson ASA, am ei gefnogaeth barhaus.

Ein pobl ni

Rhoddodd Richard Bowker y g orau i'w swydd fel is-gadeirydd ym mis Medi 2009. Rydym wedi elwa'n fawr ar ei frwdfrydedd ynglŷn â dyfrffyrdd, a hoffwn ddymuno pob llwyddiant iddo yn y dyfodol. Roeddwn yn falch iawn pan benodwyd John Bridgeman yn is-gadeirydd yn ei le; mae John eisoes wedi dangos ei fod yn aelod gwerthfawr o'r tîm. Gadawodd Mark Bensted, y cyfarwyddwr adfywio, ym mis Ebrill 2010. Gwnaeth Mark gyfraniad allweddol fel cyfarwyddwr Llundain a'r cyfarwyddwr adfywio, a bydd ei weledigaeth, ei ymroddiad a'i frwdfrydedd yn golled i ni i gyd.

Yn olaf, mae'n rhaid i mi dalu teyrnged i'n tîm gweithredol a holl staff Dyfrffyrdd Prydain. Yn ystod blwyddyn pan benderfynwyd ailstrwythuro er mwyn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd, aethant ati i barhau i ofalu am y camlesi gyda'r un proffesiynoldeb ac ymroddiad ag arfer. Diolch i chi ar ran y Bwrdd a'n rhanddeiliaid.

Tony Hales
Cadeirydd

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn gorfforaeth gyhoeddus sy'n atebol i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yng Nghymru a Lloegr, a Llywodraeth yr Alban yn yr Alban. Rydym yn rheoli rhwydwaith 2,200 milltir o hyd, 200 oed, o gamlesi ac afnoydd.

Y Gweinidog dros Ddyfrffyrdd Mewndirol, Cymru a Lloegr
Huw Irranca-Davies AS (hyd at Fai 2010), Richard Benyon AS (o Fai 2010)

Y Gweinidog dros Drafnidiaeth, Seilwaith a Newid yn yr Hinsawdd, yr Alban
Stewart Stevenson ASA

Blaenoriaethau Strategol
Yng Nghymru a Lloegr, mae ein hadran nawdd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn darparu canllawiau strategol yn ymwneud â'r blaenoriaethau canlynol:

• Sicrhau bod y rhwydwaith dyfrffyrdd yn cael ei gadw mewn cyflwr boddhaol
• Gwireddu gweledigaeth hirdymor Llywodraeth y DU/Dyfrffyrdd Prydain o fod yn fwy hunangynhaliol
• Sicrhau amrywiaeth o fuddiannau cyhoeddus ychwanegol.

Yn yr Alban, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban. Mae ehangder gweithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban yn cyd-fynd â'r Diben a'r pum Amcan Strategol a amlinellir gan Lywodraeth yr Alban:

• Cyfoethocach a Thecach
• Iachach
• Diogelach a Chryfach
• Doethach
• Gwyrddach

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y Cynulliad, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn 2010/11.

EIN GWELEDIGAETH

Saith mlynedd yn ôl, ein huchelgais oedd creu, 'erbyn 2012, rwydwaith dyfrffyrdd ehangach, bywiog, hunangynhaliol ar y cyfan a ddefnyddir gan ddwywaith gymaint o bobl â'r rhai a oedd yn ei ddefnyddio yn 2002. Caiff ei ystyried yn un o asedau cenedlaethol pwysicaf a mwyaf gwerthfawr y wlad. Bydd ymwelwyr wrth eu bodd gyda'r profiad ac, o ganlyniad, daw llawer i gyfranogi ynddo.'

Gosodwyd y weledigaeth honno yn 2003, gan edrych tuag at 2012. Wrth i ni nesáu at ddiwedd y cyfnod hwnnw, a chan ein bod wrthi'n trafod y syniad o symud i fod yn ymddiriedolaeth elusennol, gyda gweledigaeth newydd, penderfynwyd amlinellu'r cynnydd rhagorol rydym wedi'i wneud ers 2003.

'creu rhwydwaith dyfrffyrdd... ehangach'
Rydym wedi llwyddo i gwblhau'r Liverpool Canal Link, cyfnod cyntaf Camlas Manchester Bolton & Bury ac Afonydd Bow Back. Rydym yn gobeithio cwblhau'r gwaith o adfer Camlesi Droitwich yn 2011 a dechrau gwaith ar yr estyniad i Gamlas Forth & Clyde i lawr yr Afon Carron fel rhan o'r Prosiect HELIX yn yr Alban.

'creu rhwydwaith dyfrffyrdd... bywiog'
Mae ein gweithgareddau adfywio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol wedi gweddnewid dyfrffyrdd mewn llefydd fel Leeds, Brentford, Caerloyw a Manceinion. Mae lleoliadau fel Foxton Locks wedi'u gweddnewid trwy grantiau'r Loteri, gwaith cynnal a chadw gwell a buddsoddiad trwy ein Partneriaeth Tafarnau Glan Dŵr. Mae nifer y cychod trwyddedig ar ein camlesi a'n hafonydd hefyd wedi cynyddu 33% rhwng 2003/04 a 2009/10.

'rhwydwaith dyfrffyrdd... hunangynhaliol ar y cyfan'

Rydym wedi canolbwyntio ar gynyddu ein hincwm masnachol fel ein bod yn fwy parod i wynebu adolygiadau o wariant cyhoeddus. Mae ein cymhareb o incwm masnachol i grantiau Llywodraeth y DU wedi gwella o 47:53 yn 2003/04 i 59:41 yn 2009/10, sef cynnydd o 26% yn y gyfran incwm masnachol. Mae'r incwm hwn yn deillio'n rhannol o'r ystâd waddol ac yn cynnwys incwm eiddo a chyfleustodau, yn ogystal ag incwm o weithgareddau yn ymwneud â'r dyfrffyrdd a chychod.

'a ddefnyddir gan ddwywaith gymaint o bobl'
Roedd dyblu nifer y bobl sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd yn darged uchelgeisiol ond, ers 2004, mae niferoedd ymwelwyr wedi cynyddu 48%. Mewn rhai safleoedd, rydym wedi gweld teirgwaith, pedair gwaith neu hyd yn oed ddeg gwaith cymaint o ymwelwyr, yn enwedig lle rydym wedi adfer camlesi neu greu cyrchfannau penodol. Yn yr Alban, er enghraifft, ers agor y Millennium Link, mae niferoedd ymwelwyr wedi cynyddu 500%.

'ei ystyried yn un o asedau cenedlaethol pwysicaf a mwyaf gwerthfawr y wlad'
Yn 2009, roedd 91% o'r boblogaeth yn teimlo mai camlesi oedd un o asedau cenedlaethol pwysicaf a mwyaf gwerthfawr y wlad. Mae ein camlesi a'n hafonydd yn darparu £500 miliwn o fudd cyhoeddus bob blwyddyn, sy'n sicrhau adenillion sylweddol ar fuddsoddiad Llywodraeth y DU ac yn fesur arall o bwysigrwydd cenedlaethol y dyfrffyrdd.

'Bydd ymwelwyr wrth eu bodd'
Rydym am i'n hymwelwyr fwynhau eu hunain, ac mae tuedd pobl i argymell yn fesur da o hyn. Byddai naw o bob deg cychwr ac ymwelydd yn dueddol o argymell y dyfrffyrdd i eraill.
Mewn cyrchfannau lle mae gennym fwy o gyfleusterau, dehongliadau a phobl, mae'r sgôr yn well fyth.

'daw llawer i gyfranogi ynddo'
Mae gwirfoddoli ar gynnydd. Mae ein camlesi a'n hafonydd yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd y tu hwnt i godi sbwriel ac adfer lociau. Maent yn rhoi cyfle i wirfoddolwyr ddysgu sgiliau newydd, cyfarfod â phobl newydd, defnyddio sgiliau cyfredol, datblygu eu synnwyr o berchnogaeth o'r dyfrffyrdd a'n helpu ni i gyflawni mwy.
Bydd y math hwn o gyfranogi'n dod yn fwyfwy pwysig i'n dyfodol ac rydym bellach yn denu tua 15,000 o ddiwrnodau gwirfoddoli bob blwyddyn.

GOLWG AR Y GRWPIAU

Mae hon wedi bod yn flwyddyn gyffrous gyda'n cynlluniau i ddarparu dyfodol cynaliadwy i'n dyfrffyrdd trwy eu trosglwyddo o reolaeth y wladwriaeth i fod yn ymddiriedolaeth elusennol wedi denu llawer o'r sylw. Fodd bynnag, rydym yn parhau â'r dasg bwysig o ofalu am y rhwydwaith dyfrffyrdd hanesyddol o ddydd i ddydd.

CYNNAL A CHADW EIN HAFONYDD A'N CAMLESI

Ein prif nod yw cynnal a chadw ein hafonydd a'n camlesi hanesyddol.
Yn 2009/10, gwariwyd £143 miliwn (75% o gyfanswm y gwariant gweithredol) yn uniongyrchol ar y dyfrffyrdd, sy'n cwmpasu gwaith atgyweirio, cynnal a chadw, gwasanaethau cwsmeriaid a phrosiectau adfywio, ynghyd â chostau cysylltiedig timau cymorth fel costau technegol, diogelwch, dŵr, yr amgylchedd a threftadaeth.

Mae'r £143 miliwn yn cynnwys £68 miliwn ar weithrediadau cwsmeriaid a gwaith cynnal a chadw craidd, £29.7 miliwn ar waith seilwaith mawr, £22.2 miliwn ar brosiectau gwella a ariennir gan drydydd partïon, £3.9 miliwn ar garthu a £2 filiwn ar atgyweirio ceuffosydd. Mae'r gwaith seilwaith mawr yn cynnwys £5.4 miliwn ar wella gwasanaethau cwsmeriaid fel ail-wynebu llwybrau tynnu a £4.2 miliwn ar raglen Safonau Diogelwch Gofynnol. Aethom ati hefyd i newid 228 o gatiau lociau a gwario £6.8 miliwn ar reoli llystyfiant, a oedd yn cynnwys £2.3 miliwn i fynd i'r afael â choed peryglus a £3.7 miliwn i ofalu am bontydd a lociau ar gyfer ein cwsmeriaid.

Fodd bynnag, cadarnhaodd yr adroddiad a gomisiynwyd gan y cyfrifwyr KPMG yn 2008 bod angen i ni wario £30 miliwn ychwanegol y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr er mwyn cadw'r dyfrffyrdd mewn cyflwr boddhaol, sy'n golygu cyflawni gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio boddhaol i atal dirywiad hirdymor yng nghyflwr y seilwaith dyfrffyrdd. Bydd ein strategaeth i symud i statws ymddiriedolaeth elusennol yn ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd o ariannu'r diffyg hwn.

Ein nod yw sicrhau bod y strwythurau dyfrffyrdd, sef ein prif asedau, mewn cyflwr derbyniol o ystyried ein cyfyngiadau ariannu.
Bob blwyddyn, rydym yn mesur hyn trwy eu graddio o A - E; A yw'r cyflwr gorau ac E y gwaethaf. Yn 2009/10, aethom ati i leihau strwythurau D ac E i 18.7%, ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 39% yn y categorïau D ac E dros yr wyth mlynedd diwethaf (gweler y graff uchaf ar y dde). Fodd bynnag, wrth i'n grantiau a'n hincwm a enillir ddod o dan fwy o bwysau, mae yna berygl y bydd cyflwr asedau'n dirywio. Dyna pam mae dod o hyd i arbedion newydd a ffynonellau incwm newydd mor bwysig.

Canran y prif asedau sydd wedi derbyn graddau D ac E



(D ac E)

Digwyddiadau diogelwch gweithwyr cyflogedig Dyfrffyrdd Prydain



Achosion cymorth cyntaf

Digwyddiadau y gellir eu hadrodd

Anaf – dim triniaeth

Digwyddiadau colli amser

Darparu amgylchedd diogel

Mae'n hanfodol ein bod yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer ein cwsmeriaid, ac rydym yn gwneud ein gorau glas i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r 47 o Safonau Diogelwch Gofynnol, sy'n ymwneud â miloedd o strwythurau fel lociau, pontydd, arwyddion, llwybrau tynnu a thwneli. Pan rydych chi'n ystyried ein bod yn cwmpasu 2,200 o filltiroedd gydag adnoddau prin, mae'n anochel y bydd yna fwlch rhwng y gwaith atgyweirio sydd ei angen a'r gwaith a gwblheir. Mae hyn yn golygu na allwn ni gydymffurfio'n llawn bob amser. O ystyried hynny, rydym yn falch o fod wedi sicrhau cydymffurfiaeth o 95% ar gyfartaledd yn 2009/10. Rydym hefyd yn fodlon bod digwyddiadau yn effeithio ar gwsmeriaid sy'n gysylltiedig â chyflwr ein seilwaith wedi gostwng o 15% i 9.7% ers cyflwyno'r Safonau Diogelwch Gofynnol yn 2006/07.

Mae gweithio'n ddiogel yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel ac rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau bod y cyfarpar, yr hyfforddiant a'r dulliau cyfathrebu cywir ar waith i wneud hyn. Mae'r graff (uchaf ar y dde) yn dangos sut rydym wedi llwyddo i leihau digwyddiadau dim triniaeth a chymorth cyntaf dros amser. Fodd bynnag, rydym wedi ei chael hi'n fwy anodd lleihau nifer y digwyddiadau mwy difrifol y gellir eu hadrodd. Erbyn hyn, rydym wedi mynd ati i greu rhaglen ddiogelwch benodol i wella agwedd ac ymddygiad ymhlith ein pobl i atgyfnerthu ein mantra bod 'mynd adref yn ddiogel yn hawl, ond bod gweithio'n ddiogel yn gyfrifoldeb.'

Mesur cyflwr dyfrffordd

Yn ystod 2009, buom yn gweithio gyda Defra i ddatblygu dull o fesur cyflwr ac ymarferoldeb y dyfrffyrdd. Mae'n seiliedig ar lawer o wahanol elfennau sy'n cael eu cyfuno i greu Mynegeion ar gyfer Cyflwr Dyfrffyrdd a Budd Defnyddwyr. Ein nod oedd cyfrifo'r mynegeion hyn yn flynyddol a mesur y symudiad o'r mynegai llinell sylfaen a fesurwyd yn 2009.

Cyflwr asedau a thargedau a chyraeddiadau Safonau Diogelwch Gofynnol

	Targed	Cyflawnwyd yn 2009/10
Cydymffurfio â Safonau Diogelwch Gofynnol	Cydymffurfio 100%	**95%**
Prif asedau sydd wedi Derbyn graddau D ac E	Heb fod yn fwy na 22%	**18.7%**

YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU

Mae defnyddio ein dyfrffyrdd i ymgysylltu â chymunedau a darparu mwy o fudd cyhoeddus yn rhan bwysig o'n gwaith. Mae amrywiaeth o astudiaethau wedi dangos bod ein camlesi a'n hafonydd yn rhyfeddol yn darparu gwerth £500 miliwn o fudd cyhoeddus.

Mae dogfen bolisi ddrafft Defra, *'Waterways for Everyone'*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009, yn amlinellu sut mae'r dyfrffyrdd a'r ardaloedd o'u cwmpas yn cyfrannu at bob math o fuddiannau cyhoeddus. Yn yr Alban, rydym yn gweithio tuag at agenda Llywodraeth yr Alban i ddarparu camlesi sy'n cyflawni'r Diben a'r Amcanion Strategol canlynol: Cyfoethocach a Thecach; Iachach; Diogelach a Chryfach; Doethach a Gwyrddach. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â llawer o bartneriaid a grwpiau gwirfoddol i'n helpu i wneud hyn, ac rydym yn hynod falch o'n hanes o ddarparu adenillion chwe gwaith drosodd i bob £1 a fuddsoddir gan Lywodraeth y DU.

Mwy o ymwelwyr ar droed ac ar ddŵr

Rydym yn falch iawn bod mwy o bobl nag erioed yn ymweld â'n camlesi a'n hafonydd ac mae ymchwil yn dangos bod hamdden a thwristiaeth ar y dyfrffyrdd yn cynhyrchu tua £1.1 biliwn o wariant mewn economïau lleol ac yn cefnogi 24,000 o swyddi.

Yn 2009, ymwelodd tua 13 miliwn o bobl, neu 28% o boblogaeth oedolion Prydain, ag un o'n dyfrffyrdd, o gymharu ag 11 miliwn yn 2008. Mae ein hymgyrch farchnata wedi cyfrannu at ddenu mwy o bobl, ond cafodd ffactorau eraill fel y tywydd, yr economi a'r duedd i gael gwyliau yn y wlad hon effaith sylweddol hefyd. Ac, er gwaethaf y dirywiad economaidd, mae nifer y cychod ar ein camlesi a'n hafonydd wedi cynyddu 3%, gyda 34,944 o gychod trwyddedig (2008/09: 33,831).

Rydym yn mesur profiad ein cwsmeriaid trwy ofyn iddynt a ydynt yn 'dueddol o argymell' ac, yn unol â'n hawydd i roi pleser i'n cwsmeriaid, rydym wedi dewis mesur ein hunain yn erbyn y sgôr uchel iawn o argymell 'yn sicr'. Yn 2009, dywedodd 56% o ddefnyddwyr llwybrau tynnu a 44% o berchnogion cychod y byddent 'yn sicr' yn argymell ein dyfrffyrdd i eraill. Fodd bynnag, pe baem hefyd yn ystyried sgoriau 'yn debyg' ac 'o bosibl', sy'n fwy cymaradwy â diwydiannau eraill, byddem yn sgorio 95% ar gyfer defnyddwyr llwybrau tynnu ac 89% ar gyfer perchnogion cychod.

Targedau a chyraeddiadau gwasanaethau cwsmeriaid*

	Targed	Cyflawnwyd yn 2009/10
Nifer yr ymwelwyr unigol dros gyfnod o bythefnos (2009)	3.5 miliwn	**4.3 miliwn**
Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon	0	**3**
Safonau pobl	85%	**85%**
Safonau perfformiad	80%	**82%**
Tuedd i argymell (yn sicr) – defnyddwyr llwybrau tynnu (2009)	70%	**56%**
Tuedd i argymell (yn sicr) – perchnogion cychod (2009)	50%	**44%**
Camlesi fel rhan bwysig o dreftadaeth y wlad	90%	**91%**

*Ac eithrio Safonau Diogelwch Gofynnol (ar dudalen 7)

Dyfrffyrdd fel adnodd addysg

Mae ein gwaith yn annog plant a'u teuluoedd, arweinwyr grwpiau ac athrawon i ddefnyddio'r dyfrffyrdd fel ysbrydoliaeth ar gyfer dysgu.
Mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r to ifanc i'w helpu i ddod yn gefnogwyr brwd o'r dyfrffyrdd wrth iddynt dyfu i fyny. Mae ein hymgyrch 'WOW' (Wild Over Waterways) yn gysylltiedig â'r cwricwlwm cenedlaethol ac rydym wedi cynhyrchu nifer o adnoddau newydd y gellir eu lawrlwytho ar gyfer ein gwefan addysg (www.wow4water.net), yn ogystal â bathodynnau sgowtio. Mae'r adnoddau papur hyn yn cael eu hategu gan weithgareddau ymarferol sy'n defnyddio pob math o ddulliau dysgu y gellir eu haddasu ar gyfer plant ag anableddau corfforol a dysgu.
Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyrraedd dros 2,000 o blant drwy ymweld ag ysgolion a thros 4,000 mewn digwyddiadau, ac wedi dosbarthu 55,000 o gymhorthion addysgol argraffedig.

Hafan i fywyd gwyllt

Mae ein harolwg blynyddol o fywyd gwyllt yn ddigwyddiad rheolaidd ac, yn 2009, gwelwyd bron i 300 o wahanol rywogaethau 42,500 o weithiau ar hyd ein dyfrffyrdd. Dangosodd canlyniadau eleni fod llygoden y dŵr, sef y

mamal sy'n dirywio gyflymaf yn y DU, yn gwneud defnydd da o gamlesi, ac fe'i gwelwyd ddwywaith gymaint o weithiau. Roedd y creaduriaid a welwyd anamlaf yn cynnwys gloÿnnod byw prin, dyfrgwn, llamhidydd a hyd yn oed aligator a chrwban, gyda'r creaduriaid a welwyd amlaf yn cynnwys hwyaid, gwyddau Canada ac elyrch.

Gwarchod treftadaeth genedlaethol

Ym mis Gorffennaf bob blwyddyn, rydym yn cynhyrchu adroddiad '*State of the Waterways Heritage*' sy'n mesur ein hasedau treftadaeth ac yn crynhoi ein gwaith parhaus o ran rheoli, cynnal a chadw a diogelu treftadaeth y dyfrffyrdd. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu newidiadau ac yn olrhain cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion treftadaeth: gwerthfawrogi treftadaeth am beth ydyw ac am y buddiannau cyhoeddus a ddaw yn ei sgil; hyrwyddo sgiliau ac ymwybyddiaeth o dreftadaeth; cydymffurfio â'r gyfraith; lleihau nifer yr 'Adeiladau mewn Perygl'; a gwella asedau treftadaeth trwy atgyweirio neu adfywio. Cyhoeddir yr adroddiad ar ein gwefan yn www.britishwaterways.co.uk

Gwrando ar ein cwsmeriaid

Rydym am glywed barn ein cwsmeriaid am ein gwasanaeth ac rydym yn falch o allu ymgysylltu â chymaint o gymunedau, grwpiau ac unigolion sy'n defnyddio ein sianeli cyfathrebu ffurfiol a thrwy'r sgyrsiau anffurfiol rydym yn eu cael gyda nhw bob dydd. Hoffem ddiolch i'r holl grwpiau sy'n cyfrannu'n rheolaidd at ein grwpiau defnyddwyr, Fforwm Cynghori Dyfrffyrdd Prydain (BWAF) a Grŵp Defnyddwyr a Buddiannau y Dyfrffyrdd. Mae eu barn, eu brwdfrydedd a'u crebwyll yn ein helpu i lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn mesur sut rydym yn perfformio'n fewnol trwy gyfres o safonau gwasanaethau cwsmeriaid. Rydym yn monitro meysydd yn ymwneud â'n Pobl, Diogelwch a Pherfformiad trwy archwiliadau mewnol a 'siopau dirgel' allanol.

Mae nifer fawr o safonau unigol yn cael eu gwerthuso a'u cynnwys mewn tri sgôr canran terfynol i fesur sut rydym yn perfformio. Yn 2009, aethom ati i gyflawni 85% o safonau pobl, 82% o safonau perfformiad a 95% o Safonau Diogelwch Gofynnol.

Rydym hefyd yn mesur ein cwynion swyddogol ac, yn ystod 2009/10, derbyniwyd 362 o gwynion lefel gyntaf, gostyngiad o 13% ar y flwyddyn flaenorol (2008/09: 417). O'r cwynion lefel gyntaf hyn, aeth 66 ohonynt ymlaen i'r ail lefel i gael eu hystyried gan gyfarwyddwr. Mae hyn yn 19% o'r holl gwynion a dderbyniwyd (2008/09: 15% a 2007/08: 13%).

Mae Ombwdsmon Annibynnol y Dyfrffyrdd ar gael i ystyried cwynion ar y drydedd lefel a'r lefel derfynol. Yn ystod 2009/10, derbyniodd 81 o ymholiadau (2008/09: 72), gyda 7% ohonynt yn amherthnasol i ni a 63% yn gynamserol h.y. nid oedd yr achwynydd wedi cwblhau ein gweithdrefn gwyno fewnol. Derbyniwyd 23 o gwynion (2008/09: 16) i'w hystyried. Mae Ombwdsmon y Dyfrffyrdd wedi cwblhau 22 o achosion eleni (2008/09:16). Cafodd chwech eu gwrthod, cafodd un ei thynnu'n ôl, cafodd dwy eu terfynu, cafodd pump eu datrys i foddhad yr Ombwdsmon ar ôl iddi ymyrryd a chafodd wyth eu derbyn yn llawn neu'n rhannol. Mae gwybodaeth am y cynllun Ombwdsmon a'i bwyllgor annibynnol ar gael yn www.waterways-ombudsman.org

Mae nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi treblu eleni; cafwyd 220 o geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2009/10, o gymharu ag 85 o geisiadau yn ystod 2008/09 a 72 o geisiadau yn 2007/08. Yn aml, mae'r ceisiadau hyn yn arwain at lwyth gwaith sylweddol ac rydym wedi penodi swyddog Rhyddid Gwybodaeth i sicrhau cysondeb o ran sut rydym ni'n mynd ati ac yn cydymffurfio â'r gyfraith.

CYNNYDD TRWY BARTNERIAETHAU LLEOL

Rydym yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddarparu pob math o welliannau i gamlesi ac afonydd lleol. Hoffem ddiolch i bob un ohonynt. O asiantaethau datblygu rhanbarthol ac awdurdodau lleol i sefydliadau loteri, grwpiau gwirfoddol ac elusennau lleol, mae eu cymorth, eu cyfarwyddyd a'u gweledigaeth wedi helpu i ddatblygu prosiectau ychwanegol gwerth £15.9 miliwn (2008/09: £36.1 miliwn) i gyflawni amcanion a rennir.

Gweithio gyda gwirfoddolwyr

Yn 2009, aethom ati i greu tîm gwirfoddoli newydd er mwyn parhau i feithrin cysylltiadau â sefydliadau a grwpiau gwirfoddolwyr cyfredol, yn ogystal ag adeiladu meysydd newydd o gymorth. Mae'r rhain yn cynnwys: graddedigion yn chwilio am brofiad gwaith mewn meysydd fel peirianneg, datblygu gwirfoddoli a hydroleg; gweithio gyda gwirfoddolwyr ifanc, fel y Waterway Action Squad yng Ngogledd-orllewin Lloegr, lle mae 270 o bobl ifanc 16-25 oed wedi rhoi o'u hamser yn chwe mis cyntaf y prosiect; a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol a busnesau lleol i ddechrau cynlluniau mabwysiadu dyfrffyrdd lleol, fel gyda banc HFC yn Birmingham.
Ar ben hyn, rydym hefyd wedi sicrhau gweithiwr cyflogedig ar secondiad o BT i hyrwyddo'r cynllun mabwysiadu dyfrffyrdd yn Ne Lloegr. Mae ein diwrnodau gwirfoddoli wedi dyblu fwy neu lai dros y ddwy flynedd diwethaf, o 8,000 yn 2007 i 14,600 yn 2009 (2008: 16,000), sy'n cynrychioli gwerth cymharol o dros £1 filiwn.

GWEITHREDU AR DDATBLYGU CYNALIADWY

Rydym yn parhau i ddatblygu ein 'Cynllun Gweithredu ar Ddatblygu Cynaliadwy' sy'n canolbwyntio ar bedair elfen: ynni, adnoddau, gwastraff a'r amgylchedd naturiol a budd cyhoeddus.

Rydym wedi ymrwymo i wasanaeth rheoli carbon yr Ymddiriedolaeth Garbon ar gyfer 2010 i helpu i leihau ein hallyriadau carbon a gwella ein dulliau cofnodi data a phennu targedau ar gyfer ein holl ddefnydd o ynni. Mae ein Cynllun Gweithredu ar Adnoddau yn cynnwys datblygu ein polisi caffael, yn enwedig ar gyfer deunyddiau a ddefnyddir ym maes adeiladu ac mewn swyddfeydd. Rydym yn defnyddio proses Arfarnu Amgylcheddol ar gyfer pob prosiect i sicrhau bod elfennau amgylcheddol pob prosiect yn cael eu hystyried, eu gwerthuso a'u rheoli'n effeithiol. Rydym yn ceisio lleihau cyfran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi trwy sicrhau cynnydd sylweddol yn ein safonau gweithredu ar gyfer gwahanu, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff. Rydym hefyd yn bwriadu sicrhau bod ein holl gontractwyr a phartneriaid gwasanaeth yn mabwysiadu arferion datblygu cynaliadwy da yn eu busnesau eu hunain.

Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Mae dyfrffyrdd Prydain yn dod yn fwyfwy pwysig fel ffordd o helpu i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd. Rydym wrthi'n datblygu nifer o gynlluniau trydan dŵr ar raddfa fach i fanteisio'n llawn ar ynni yng nghoredau ein hafonydd ac mae gennym gyfranddaliadau gwerth 10% o'r cwmni yn y Small Hydro Company sy'n chwilio am gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy trwy ddefnyddio dyfrffyrdd. Gellir hefyd ddefnyddio'r tir yn ymyl camlesi ac afonydd i godi tyrbinau gwynt a, thros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda Partnerships for Renewables i godi tua 50 o dyrbinau. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y prosiectau dŵr a gwynt yn cynhyrchu digon o bŵer ar gyfer tua 85,000 o gartrefi. Rydym hefyd yn parhau i ganiatáu i fusnesau ddefnyddio dŵr camlesi sydd, trwy ddefnyddio technoleg cyfnewid gwres, yn darparu dewis amgen cynaliadwy i aerdymheru traddodiadol.

Er mai ffordd o gludo llwythi oed diben traddodiadol camlesi, erbyn heddiw mae'r llwybrau tynnu hefyd yn boblogaidd ymhlith cymudwyr sy'n dewis cerdded a beicio i'r gwaith, gan leihau allyriadau CO_2 a thagfeydd ar y ffyrdd. Rydym yn amcangyfrif bod pob cilometr o lwybr tynnu trefol yn lleihau allyriadau CO_2 tua 100 tunnell y flwyddyn.

Rydym yn edrych ar gamau gweithredu ataliol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ac, yn ystod y flwyddyn, aethom ati i ddatblygu ein hymchwil i ddeall y risg o gamlesi'n gorlifo ac rydym wedi cyfrannu at waith Llywodraeth y DU o ddatblygu Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn gwella gwaith rheoli llifogydd. Rydym wedi gwario £8.8 miliwn yn y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys £3.5 miliwn yn 2009/10, i uwchraddio llawer o'r 92 o gronfeydd dŵr lefel uwch i safonau dylunio, adeiladu a diogelwch modern, gan fod llawer ohonynt wedi cael eu hadeiladu tua 180 mlynedd yn ôl. Yn ogystal â chynnal y safonau cadarn a bennwyd gan beirianwyr arolygu annibynnol o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, bydd hyn hefyd yn ein paratoi i ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

ARFER GORAU WRTH ADFYWIO

Roeddem yn hynod falch bod ein gwaith yn parhau i gael ei gydnabod yn y Waterways Renaissance Awards (a noddir gan Gymdeithas Adfywio Trefol Prydain) am arfer gorau wrth ddatblygu ac adfywio dyfrffyrdd mewn ffordd gynaliadwy. O'r 11 categori, buom yn ddigon ffodus i ennill chwe gwobr gyntaf a chawsom gymeradwyaeth neu'r ail wobr mewn chwe chategori arall.
Roedd yr enillwyr yn cynnwys: Middlewich Vision, Swydd Gaer; Liverpool Canal Link; Action Outdoors, Falkirk; Menter The Great Glen Ways yn Ucheldiroedd yr Alban; a'r Erewash Canal Access Strategy, Nottingham.

GWELLA DULLIAU GWEITHIO

Ym mis Tachwedd 2009, cyflwynwyd strwythur gweithredu newydd i'n galluogi i fod yn fwy effeithiol, canolbwyntio ar gwsmeriaid a lleihau costau. Aethom ati i symud o wyth uned fusnes i 11 o unedau llai yng Nghymru a Lloegr sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r dyfrffyrdd; un uned sydd yn yr Alban o hyd.
Mae unedau llai yn ein galluogi i reoli gweithrediadau cynnal a chadw'r dyfrffyrdd yn fwy effeithlon. Fel rhan o'r ad-drefnu, rydym wedi creu timau cenedlaethol o arbenigwyr sy'n delio â swyddogaethau allweddol fel cychod, gwasanaethau cwsmeriaid, adfywio, peirianneg, diogelwch a rheoli prosiectau, gan gynnwys timau arbenigol i gynyddu incwm o ffynonellau fel y Loteri ac i gryfhau cysylltiadau gydag awdurdodau lleol.
Mae gwelliannau i dechnoleg hefyd yn galluogi staff a'u timau i fod yn fwy symudol a chwmpasu ardaloedd mwy o faint nag erioed o'r blaen. Yn yr hirdymor, rydym yn amcangyfrif y bydd y newidiadau hyn, ynghyd â mentrau eraill i greu arbedion, yn arbed £10 miliwn y flwyddyn ar ein costau gweithredu.

DIOLCH I'N CRIW YMRODDGAR

Er mwyn gofalu am ein camlesi a'n hafonydd, mae angen brwdfrydedd ac, mewn llawer o achosion, sgiliau a phrofiad arbenigol. Mae gennym weithlu ymroddgar tu hwnt sydd wedi ein tywys trwy gyfnod o ad-drefnu a newid mawr, a hoffem ddiolch iddynt am eu holl waith caled. Rydym yn cynnal arolygon rheolaidd ymhlith gweithwyr cyflogedig i'n helpu i ddeall sut mae pobl yn teimlo. Mae canlyniadau'r arolwg diweddaraf, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2010, naill ai'r un fath neu ychydig yn waeth na chanlyniadau'r arolwg diwethaf yn 2008, ond nid yw hyn yn syndod o ystyried y newid mawr yr oedd ein pobl yn ei wynebu y llynedd. Hefyd, bu'n rhaid i ni rewi cyflogau i

helpu i gynnal gwariant ar y dyfrffyrdd yn ystod y dirwasgiad economaidd. Yn ôl y canlyniadau, roedd 76% yn fodlon â'u swyddi presennol (2008: 78%), roedd 64% yn fodlon gyda ni fel cyflogwr (2008: 70%) ac roedd 72% yn falch o fod yn gweithio gyda ni (2008: 71%).

Crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn £ miliwn	Grŵp Dyfrffyrdd Prydain
Cyfanswm y refeniw	
(Colled) / elw gweithredu	
Llog net sy'n daladwy	
Cyfran elw a cholled o gyd-fentrau	
Elw ar werthu eiddo a buddsoddiadau	
(Colled) / elw ar ailbrisio eiddo a fuddsoddwyd	
(Diffyg) / gwarged cyn treth	
Cronfeydd wrth gefn y Grŵp	

CRYNODEB ARIANNOL

Mae'r dirwasgiad yn parhau i gael effaith andwyol ar ein canlyniadau ariannol, ac rydym yn wynebu her ychwanegol mewn perthynas â'r bygythiad i leihau grant Llywodraeth y DU dros y blynyddoedd nesaf. Rydym yn ateb yr heriau hyn trwy ganolbwyntio ar effeithlonrwydd cost ac yn parhau i chwilio am ffyrdd arloesol o sicrhau mwy o incwm o'n hasedau.

Cyfanswm cost yr ad-drefnu, taliadau dileu swyddi yn bennaf, oedd £3.9 miliwn. Er gwaethaf y gost ychwanegol hon, bu gostyngiad o £5 miliwn yn y gwariant gweithredu ar gyfer y flwyddyn, ond parhaodd y gwariant ar y dyfrffyrdd ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol.

Mae gwerth ein portffolio eiddo buddsoddiadau anweithredol wedi gwella ychydig ar ôl y dirwasgiad, gyda chynnydd o 2% yn y portffolio ar gyfer y flwyddyn (£7.8 miliwn), yn erbyn y gostyngiad prisio o £66.4 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Mae twf rhenti yn dal i gael ei atal gan lefelau cymharol isel y galw oherwydd yr amodau economaidd anodd, er bod ein hincwm rhenti wedi aros yn gyson bob blwyddyn.

Mae rhagor o fanylion am y canlyniadau ariannol yn yr adran Adolygiad Ariannol ar dudalennau 24 i 30.

DOD YN YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

Adeg cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y llynedd, roeddem newydd ddechrau trafodaeth gyhoeddus ynghylch strategaeth ar gyfer dyfrffyrdd i'r dyfodol ac, yn enwedig, y posibilrwydd o ddod yn ymddiriedolaeth elusennol.

Yn ystod y flwyddyn, treuliwyd llawer o amser yn trafod y cynigion hyn gyda'n cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid, ein partneriaid a'n pobl. Bu'r trafodaethau hyn yn help i lywio'r adroddiad ymchwil *'Setting a new course: Britain's waterways in the third sector'*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009, sy'n edrych ar sut y gall symud o'r sector cyhoeddus i'r trydydd sector weithio. Cafodd y cynnig gefnogaeth eang gan ein rhanddeiliaid dyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr a byddwn yn parhau i'w drafod gyda Llywodraeth newydd y DU.

Er mai dim ond i'n rhwydwaith dyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr y mae'r cynigion yn berthnasol, mae Llywodraeth yr Alban wedi dechrau trafod sut y gall dyfrffyrdd yr Alban elwa ar unrhyw newidiadau arfaethedig. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r ddwy lywodraeth, ein rhanddeiliaid a'n pobl i wireddu'r freuddwyd o gael dyfrffyrdd Prydain yn y trydydd sector.

ADOLYGIAD CYMRU A LLOEGR

Mae Defra, ein hadran nawdd yng Nghymru a Lloegr, yn pennu'r blaenoriaethau strategol canlynol: cadw'r rhwydwaith dyfrffyrdd mewn cyflwr boddhaol; cyflawni gweledigaeth hirdymor Llywodraeth y DU/Dyfrffyrdd Prydain o fod yn fwy hunangynhaliol; a darparu amrywiaeth o fuddiannau cyhoeddus ychwanegol. Mae ein strategaeth yn dilyn y canllawiau hyn ac rydym wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn.

CADW'R RHWYDWAITH DYFRFFYRDD MEWN CYFLWR BODDHAOL

Mae ein gwaith yn amrywio bob amser ac, eleni, roedd yn cynnwys prosiectau fel: draenio Traphont Ddŵr Pontcysyllte ar Gamlas Llangollen i alluogi arolygiad trylwyr a glanhau'r strwythur; gosod gatiau môr 70 tunnell newydd yn Nociau Sharpness Docks, rhan o brosiect gwerth £1 filiwn; a newid 16 o gatiau lociau newydd yn ardal Caen Hill ar Gamlas Kennet & Avon.

Wrth gyflawni ein gwaith cynnal a chadw, mae'n rhaid i ni fod yn ystyriol o'r holl gynefinoedd bywyd gwyllt. Er enghraifft, pan oeddem yn atgyweirio pont ar y Grand Union Canal, Llinell Caerlŷr, bu'n rhaid i ni osod 'briciau ystlumod' i sicrhau bod cytref o ystlumod gwarchodedig yn parhau i fedru clwydo yno ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.
Rydym hefyd yn ystyriol o'r deunyddiau gwreiddiol a ddefnyddir i atgyweirio ein hafonydd a'n camlesi hanesyddol, er enghraifft pan aethom ati i ailadeiladu pont restredig o'r 17eg ganrif ar Gamlas Trent & Mersey trwy ddefnyddio morter calch traddodiadol a briciau wedi'u hadennill.

Hefyd, mae'n rhaid i ni ddelio â'r annisgwyl, fel ym mis Mehefin 2009 pan ddymchwelodd rhan o lan Camlas Llangollen yn Grindley Brook, gan achosi problemau mawr. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'n rhaid i ni weithredu ar unwaith a dod o hyd i ddull effeithiol o ddatrys y broblem. Roedd hyn hefyd yn wir ym mis Tachwedd 2009 pan dorrodd arglawdd ar Gamlas Caldon; disgwylir y bydd y gwaith trwsio'n unig yn costio tua £0.5 miliwn.

Yn dilyn arbrawf llwyddiannus, o 1 Ebrill 2009, penderfynwyd cydgrynhoi ein gwaith rheoli cyfleusterau gwasanaeth a llystyfiant a rhoi'r gwaith i un contractwr, Connaught Environmental Cyf, yn hytrach na'r cant o gontractwyr unigol yr arferem eu defnyddio. Mae hyn wedi arwain at adborth cadarnhaol gan grwpiau defnyddwyr, cysondeb o ran dull ac arbedion cost.

Diogelu a hyrwyddo treftadaeth

Gan weithio ochr yn ochr ag English Heritage, aethom ati i lansio '*England's Historic Waterways: A working heritage*' i hyrwyddo datblygiadau ar y glannau o safon uchel. Mae'r cyhoeddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd dylunio cyd-destunol da ac yn rhoi enghreifftiau o arfer da. Mae'r ddogfen wedi'i llunio i gefnogi a hysbysu penseiri, cynllunwyr, datblygwyr, cadwraethwyr ac asiantaethau adfywio.

Buom yn cymryd rhan yn y rhaglen 'Diwrnodau Agored Treftadaeth' genedlaethol unwaith eto eleni, gyda digwyddiadau'n cynnwys: teithiau cerdded o amgylch basn Victoria Quays yn Sheffield, sgyrsiau am hanes Twnel Standedge, drysau agored yn Sandiacre Lock Cottage ar Gamlas Erewash a sgwrs am hanes swyddfa Dyfrffyrdd Prydain yn Newark, The Kiln.

Ni oedd un o'r sefydliadau sector cyhoeddus cyntaf i lofnodi Cytundeb Partneriaeth Treftadaeth newydd gydag English Heritage, Cyngor Dosbarth Harborough a Chyngor Swydd Gaerlŷr ar gyfer Foxton Locks, ar y Grand Union Canal, Llinell Caerlŷr eleni. Mae hyn yn arwyddocaol gan y bydd yn ein galluogi i weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol. Mae'r cytundeb yn cydnabod bod gennym y sgiliau a'r bobl gywir i reoli'r safle hanesyddol hwn ac yn osgoi'r angen i gyflwyno cais am ganiatâd bob tro rydym am gyflawni gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Mae'n dilyn cyhoeddi papur gwyn Llywodraeth y DU, *'Heritage Protection for the 21st Century'*, yn 2007 sy'n amlinellu ffordd newydd, syml o uno'r system gyfredol, gan sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol hwn yn cael ei ddiogelu a'i reoli'n effeithiol ar yr un pryd. Rydym yn gobeithio y bydd y prosiect peilot hwn yn dod yn dempled ar gyfer y ffordd y byddwn yn gweithio yn ein safleoedd hanesyddol yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi parhau i leihau nifer y strwythurau ar gofrestri 'Adeiladau mewn Perygl' awdurdodau lleol ac, yn y pum mlynedd diwethaf, mae'r ffigur hwn wedi gostwng 80% i 23 (2004/05:125). Yn ogystal â'n hymgynghorwyr treftadaeth mewnol, rydym yn gweithio gydag arbenigwyr annibynnol o gymdeithasau camlesi a grwpiau eraill sy'n cael eu cynrychioli ar is-grŵp treftadaeth y BWAF. Hoffem ddiolch iddynt am eu cyfraniad a'u harweiniad.

Annog bywyd gwyllt

Mae gwarchod natur yn rhan annatod o'n gwaith ac rydym yn un o dros 200 o sefydliadau sydd wedi ymuno â 'Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth' y Cenhedloedd Unedig sy'n dathlu'r amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid sy'n byw yn yr amgylchedd naturiol.
Mae hyn yn cynnwys: y bartneriaeth i gyflwyno mesurau rheoli biolegol ar y planhigyn ymledol Clymog Japan; prosiect ar y cyd gyda Sŵ Caer i warchod y planhigyn dyfrol brodorol Llyriad-y-dŵr Arnofiol; prosiect ar y cyd gyda'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Glöynnod Byw i wella cynefinoedd gloÿnnod byw; cefnogi Rhaglen Monitro Ystlumod Genedlaethol yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod; a gweithio gydag Ymddiriedolaeth Adareg Prydain i fonitro poblogaethau adar. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Choed Cadw i gofnodi ein coed hynafol, ac yn rhan o brosiect ymchwil y dylluan wen ar Gamlas Aire & Calder.
Llwyddodd ein harolwg bywyd gwyllt blynyddol poblogaidd i helpu i annog aelodau'r cyhoedd i fynd allan a chofnodi'r amrywiaeth o fywyd gwyllt ar ein dyfrffyrdd.

CAMLESI AC AFONYDD YN DARPARU BUDD CYHOEDDUS

Mae sefydliadau a phobl leol yn defnyddio'r rhwydwaith o gamlesi ac afonydd a thir cyfagos i weithio mewn partneriaeth i ddarparu pob math o fuddiannau cyhoeddus. Mae rhai o uchafbwyntiau eleni'n cynnwys:

Darparu llwybrau cerdded a beicio gwyrddach a diogelach yng Nghaerwrangon. Rydym yn uwchraddio pum milltir o lwybrau tynnu a fydd yn gweddnewid yr ardal trwy gynnig llwybrau cerdded a beicio gwyrddach a diogelach. Trwy weithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerwrangon, Cyngor Sir Caerwrangon a Sustrans, bydd y prosiect £0.75 miliwn hwn yn cynnig llwybrau sy'n cysylltu'r llwybrau tynnu'n uniongyrchol â swyddfeydd, ysgolion, canolfan hamdden, meysydd rygbi a phêl-droed a chymunedau preswyl.

Gwelliannau yn Essex. Ym mis Chwefror 2010, cwblhawyd gwerth dros £330,000 o welliannau i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar hyd darn poblogaidd o lwybr tynnu ger yr Afon Stort yn Essex. Roedd y gwaith yn cynnwys lledu a rhoi wyneb newydd i'r llwybr tynnu, gosod rheiliau llaw a rampiau mynediad newydd ar bontydd a gwarchod y lan feddal.

***'Canals for the Community'* yn Stoke**. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu 'Canals for the Community' yn Stoke-on-Trent, prosiect y Gronfa Loteri Fawr sy'n ceisio cynyddu cynhwysiant cymdeithasol ar y camlesi a chreu lle mwy bywiog a dymunol ar gyfer y gymuned. Mae gweithgareddau'n cynnwys: hyfforddiant ar gadwraeth; cyrsiau pysgota a diwrnodau blas; digwyddiadau cerdded a beicio; y celfyddydau a dehongli; gweithgareddau gwirfoddoli; a fforymau cymunedol.

Gwelliannau cymunedol ar hyd yr Afon Trent. Eleni, cymeradwywyd cynllun £2.8 miliwn a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ailadeiladu cysylltiadau cymunedol a dathlu treftadaeth naturiol a diwylliannol yr Afon Trent. Dechreuodd y Trent Vale Landscape Partnership ar ei gwaith ym mis Ionawr 2010 gyda phrosiectau'n cynnwys ymchwiliadau archaeolegol, adnewyddu adeiladu treftadaeth allweddol, gwarchod cannoedd o hectarau o gynefinoedd allweddol i fywyd gwyllt, cynllun grantiau bach, gwaith addysg amgylcheddol a threftadaeth, gwella cyfleusterau angori, gwyliau treftadaeth ac arweinlyfrau i ymwelwyr. Bydd y cynllun ar waith am dair blynedd a bydd yn creu pum swydd yn uniongyrchol, yn helpu i sicrhau llawer mwy ac yn creu cyfleoedd hyfforddiant i gannoedd o bobl.

Cychod

Er mwyn parhau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid, rydym wedi creu gwefan well fel y gall cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr adnewyddu eu trwydded ar-lein ac, yn ystod 2009/10, adnewyddwyd 6,006 o drwyddedau trwy'r wefan hon (2008/09: 3,696). Am yr ail flwyddyn yn olynol, bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n osgoi prynu trwydded, gan ddisgyn i 4.9% ym mis Mawrth 2010.

Aethom ati i wella ein gwefan angori mewn ymateb i adborth cwsmeriaid. Erbyn hyn, gall pobl â diddordeb mewn cychod gymryd rhan mewn ocsiwn am eu hoff safle angori yn hytrach na'r hen arfer o gyflwyno tendrau 'dall'. Yn 2009/10, gwerthwyd 465 o safleoedd angori trwy ddefnyddio ein gwefan ocsiwn a thendrau.

Rydym yn ymgynghori â'n cwsmeriaid wrth wneud penderfyniadau mawr ynglŷn â sawl agwedd ar gychod. Eleni, buom yn gweithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr i adolygu'r 160 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar angori. Rydym yn defnyddio eu gwaith i baratoi crynodeb i'w drafod gyda sefydliadau cychod cenedlaethol. Cafwyd 98 o ymatebion i strategaethau angori lleol, a chaiff adroddiad ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2010. Eleni, aethom hefyd ati i greu tîm masnachu newydd ym maes cychod sy'n parhau i feithrin cysylltiadau ac yn pwyso a mesur materion cyfredol gyda'r diwydiant cychod.

Pysgota

Mae pysgota'n dal i fod yn un o weithgareddau hamdden mwyaf poblogaidd y wlad, ac mae ein camlesi a'n hafonydd yn llefydd gwych i fwynhau'r gweithgarwch hwn. Llwyddodd tîm pysgota cenedlaethol newydd i reoli 463 o gytundebau pysgota ac, yn dilyn arbrawf llwyddiannus yng Ngogledd-orllewin Lloegr, aethom ati i ymestyn cynllun The Waterways Wanderers i weddill y wlad ym mis Ebrill 2010. Mae'r cynllun yn cau'r bylchau rhwng y rhannau hynny o'r ddyfrffyrdd nad ydynt yn cael eu gosod i glybiau, sef 122 o leoliadau yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws pysgota mewn camlesi gydag un drwydded flynyddol.

Llwythi
Rydym yn aelod o 'Freight by Water', corff swyddogol Llywodraeth y DU ar gyfer hyrwyddo cludo llwythi ar ddyfrffyrdd mewndirol a thros y môr dros bellter byr. Eleni, roeddem yn falch o allu cyfrannu at sefydlu prosiect peilot i brofi syniad datblygu a fyddai'n golygu bod modd i'r sector preifat gyfranogi mewn coridorau llwythi pwysig.
Bydd yr arbrawf yn canolbwyntio ar goridor yr Afon Hafren.

Rydym yn falch bod Loc Three Mills yn Llundain wedi'i gwblhau, a'i fod yn cynnal lefelau dŵr yn y Parc Olympaidd a darparu llwybr i gyrraedd yr ardal mewn cwch. Mae gan y dyfrffyrdd lawer mwy o botensial nag sy'n cael ei wireddu ar hyn o bryd ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau'r Gemau Olympaidd a'r Legacy Company newydd i annog mwy o draffig llwythi a hamdden dros amser.

Ar y cyfan, mae 1.7 miliwn o dunelli o lwythi'n cael eu cludo ar ein rhwydwaith dyfrffyrdd bob blwyddyn, gan leihau tagfeydd trwy fynd â lorïau oddi ar y ffordd a lleihau allyriadau CO_2, llygredd sŵn a damweiniau.

CYNNYDD AR ADFER
Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu prosiectau adfer camlesi sy'n dod â bywyd newydd i gymunedau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Afonydd Bow Back Cynhaliwyd agoriad swyddogol Loc Three Mills a'r strwythur rheoli dŵr ar Prescott Channel ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd ym mis Mehefin 2009. Mae'r loc newydd yn agor cysylltiad dyfrffordd uniongyrchol ag Afonydd Bow Back a'r Parc Olympaidd, gan greu porth gwyrdd i gychod camlas sy'n cludo llwythi gael mynediad i barth adeiladu'r Gemau Olympaidd. Mae'r Green Barge Company, o dan gontract BAM Nuttall, yn disgwyl defnyddio'r loc i symud hyd at 3,000 tunnell o ddeunydd adeiladu bob wythnos.

Camlesi Droitwich Mae'r gwaith o adfer y camlesi yn Droitwich yn datblygu'n dda, er gwaethaf y ffaith bod y dirywiad economaidd wedi achosi oedi o ran caffael yr holl dir. Fodd bynnag, mae trafodaethau'n parhau ac rydym yn disgwyl i'r prosiect hwn gael ei gwblhau yn 2011. Bwriad y gwaith adfer llawn yw: cynhyrchu £2.75 miliwn y flwyddyn ar gyfer yr economi leol, gan gynnwys 130 o swyddi llawn amser; sefydlu rhwng 10 a 15 o fusnesau newydd; creu 330,000 o ddiwrnodau ymwelwyr ychwanegol; £2.5 miliwn o wariant ychwanegol gan ymwelwyr; gwerth £144,000 o fuddiannau iechyd blynyddol; a 3,300 o symudiadau cychod.

Basnau Stourport Cafodd ein gwaith diweddar yn adfer Basnau Camlas Stourport gydnabyddiaeth gyhoeddus bwysig ym Medi 2009, gyda'r wlad yn pleidleisio mai dyma oedd eu hoff brosiect treftadaeth a ariennir gan y Loteri yn y DU, a llwyddodd i guro cannoedd o brosiectau eraill o bob cwr o'r DU.

CYNNYDD AR ADFYWIO
Mae adfywio ardaloedd lleol yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl ac mae ein cyfraniad at adfywio trefi a dinasoedd ar lan camlesi'n parhau. Wrth i'r farchnad wella, ynghyd â'n cyd-fentrau, byddwn yn dechrau adfywio 72 o'n safleoedd datblygu cyfredol yng Nghymru a Lloegr, naill ai'n annibynnol neu fel rhan o bartneriaethau ehangach. Bydd 70 o'r cynlluniau hyn yn adfywio dros 200 hectar o dir llwyd sy'n eiddo i ni ar hyn o bryd. Bydd y cynlluniau'n galluogi darparu bron i 17,000 o gartrefi newydd, gyda thros 9,500 ar ein tir ni, a 2,000 ohonynt yn dai fforddiadwy. Bydd ein tirddaliadau a'n cyd-fentrau, naill ai'n annibynnol neu fel rhan o bartneriaeth ehangach, yn cynhyrchu gwerth tua £10.2 biliwn o waith adfywio ar hyd ein dyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnydd ar gynlluniau mewn llefydd fel Birmingham, Caerloyw, Leeds, Lerpwl a Wigan.

Birmingham Ym mis Mawrth 2010, llofnodwyd cytundebau partneriaeth gennym gydag Advantage West Midlands a Chyngor Dinas Birmingham i hyrwyddo a darparu'r gwaith o adfywio Icknield Port Loop, safle 50 erw yn ymyl canol dinas Birmingham, i'w ddefnyddio at ddibenion tai, hamdden a chyflogaeth. Mae llofnodi'r cytundebau'n garreg filltir bwysig sy'n arwain at y cyfnodau allweddol nesaf – uwchgynllun a chyflwyno cais cynllunio – y rhagwelwn y cânt eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2012.

Gloucester Quays Mae'r ganolfan siopa 250,000 troedfedd sgwâr yng Nghaerloyw, a ddatblygwyd mewn cyd-fenter â Peel Holdings, wedi bod ar agor am flwyddyn ac yn cynnwys siopau fel Marks & Spencer, Next, Gap a Nike.
Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys gwesty 80 gwely a siop Sainsbury's newydd sy'n cynnig safleoedd angori i helpu pobl â chychod i fanteisio ar y cyfleusterau newydd. Mae'r cynllun hwn wedi sicrhau gwelliant sylweddol i brofiad ymwelwyr â Dociau Caerloyw ac mae'n gwneud cyfraniad pwysig at y gwaith adfywio parhaus yn yr ardal.

Leeds Mae ein cyd-fenter sef ISIS Waterside Regeneration wedi cwblhau ei ddatblygiad defnydd cymysg yn Leeds Granary Wharf, a'r cynllun oedd un o'r datblygiadau prin yng nghanol y ddinas i gael ei gwblhau yn 2009. Mae'r bloc cyntaf, *Watermans*, yn cynnwys 122 o fflatiau, gyda 60% ohonynt eisoes wedi'u harchebu neu eu prynu, a phont newydd i gerddwyr sy'n ei gysylltu â chanol dinas Leeds. Cwblhawyd yr ail floc 20 llawr, *Candle House*, ym mis Ionawr 2010. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gwesty 4 seren 330 gwely, 25,000 troedfedd sgwâr

o ofod masnachol, doc arbennig i atgyweirio cychod, safleoedd angori i ymwelwyr, doc gwlyb a chyfleusterau newydd ar lawr gwaelod *Candle House*.

Lerpwl Cafodd y Liverpool Canal Link ei agor yn swyddogol ym mis Ebrill 2009 ac, ym mis Hydref 2009, cyhoeddwyd mai'r tîm oedd yn gyfrifol am y prosiect oedd enillwyr y Wobr Adfywio yng Ngwobrau Diwydiant Adeiladu Prydain. Cafodd y prosiect partneriaeth £22 miliwn gydnabyddiaeth am greu effaith sylweddol ac am adfywio tir diffaith yng ngogledd Lerpwl a chreu cyfleuster heb ei ail ar lan y gamlas i bawb ei fwynhau. Amcangyfrifir y bydd y gamlas newydd, sy'n filltir a hanner o hyd, yn denu 200,000 o ymwelwyr ychwanegol y flwyddyn i ddociau Lerpwl, ac yn cynhyrchu £1.9 miliwn o wariant ychwanegol gan dwristiaid.

Wigan Dechreuodd y gwaith o ailddatblygu Swan Meadow Road, warws yn Wigan sy'n dyddio'n ôl i'r 19eg ganrif, ym mis Rhagfyr 2009. Bydd yr hen iard gychod, sydd wedi bod yn segur am fwy nag 20 mlynedd, yn cadw ei gymeriad allanol ac yn cael ei droi'n ofod swyddfa. Bydd y gwaith y bwriedir ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2010 yn hwb pwysig i dreftadaeth y dref.

Wood Wharf, Ardal Ddociau Llundain Mae cynnydd da wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ar ddatblygu Wood Wharf yng nghanol ardal ddociau Llundain. Mae ceisiadau cynllunio manwl ar gyfer y ddau gyfnod datblygu cyntaf wedi'u derbyn, ac mae cynnydd wedi'i wneud o ran caffael tir. Bydd y datblygiad terfynol yn creu tua 25,000 o swyddi newydd ac yn darparu amrywiaeth o gartrefi, swyddfeydd, siopau a chyfleusterau cymunedol.

ADOLYGIAD CYMRU

Blwyddyn allweddol yn datblygu ein gweledigaeth ar gyfer dyfrffyrdd Cymru

Yn ystod 2009/10, rydym wedi gweld cynnydd cyson mewn perthynas â'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru, gyda'n camlesi'n cyfrannu at y wlad yn economaidd, yn strwythurol ac yn gymdeithasol.

Aethom ati i sefydlu Grŵp Cynghori Cymru sy'n cynnig canllawiau strategol ac yn meithrin cysylltiadau gwleidyddol a chymunedol.
Parhaodd Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad ar Ddyfrffyrdd i ddarparu cysylltiad uniongyrchol â Llywodraeth y Cynulliad, ac mae ei gyflwyniadau perthnasol yn sicrhau bod ein hamcanion yn cyd-fynd â'r agenda wleidyddol ehangach. Rydym yn gwneud cyfraniad allweddol at y broses o lunio polisïau cenedlaethol, gan gynnwys ymholiadau Pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â'r dogfennau strategol Mynediad i Ddŵr Mewndirol a Grŵp Cynghori Cymru.

Mae ein gwaith o ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol sy'n byw ar lannau dyfrffyrdd yn hyrwyddo gwerth ehangach ein dyfrffyrdd trwy'r cyfryngau, ac mae digwyddiadau pwysig fel y Sioe Fawr yn sicrhau bod rhanddeiliaid ar bob lefel yn deall ac yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae ein perthynas waith agos â phartneriaid allweddol o Lywodraeth y Cynulliad i grwpiau cymunedol sy'n byw ar lannau camlesi parhau i ffynnu. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Rydym yn cyd-gyflwyno'r Gynhadledd Dyfrffyrdd, sydd wedi hen ennill ei phlwyf fel digwyddiad blynyddol sy'n denu cefnogaeth gweinidogion. O dan fenter 'Sblash' Llywodraeth y Cynulliad, rydym yn gweithio gyda'n gilydd i osod pwyntiau lansio canŵod ar hyd ein holl gamlesi, gan ddarparu ar gyfer y farchnad hamdden sy'n mynd o nerth i nerth a chyflawni dyheadau 'Cymru'n Un' y weinyddiaeth ar gyfer gwlad iachach. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad a Sustrans wedi ymrwymo £47,000 i ddechrau gwella Camlas Abertawe, gyda rhagor o arian wedi ei addo ar gyfer y flwyddyn nesaf. O dan Connect2, bydd gwella mynediad a llwybrau tynnu'n annog mwy o ymweliadau.

Statws Treftadaeth y Byd ar gyfer Traphont Ddŵr Pontcysyllte

Cafodd ein proffil ar lwyfan treftadaeth y byd hwb mawr yn ystod y flwyddyn pan ddyfarnwyd statws Safle Treftadaeth y Byd i Draphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte ym mis Mehefin 2009. Bydd dylanwad y gamp hon i'w weld y tu hwnt i'r coridor 11 milltir gyda mwy o dwristiaid a mwy o fuddiannau economaidd, gyda ffrwyth llafur y bartneriaeth a sicrhaodd y llwyddiant hwn yno i'w weld am byth. Caiff y llwyddiant hwn ei ategu gan fenter llawr gwlad - Prosiect Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen - sy'n darparu sgiliau treftadaeth a chadwraeth i gymunedau a fydd yn gwella profiad ymwelwyr.

Camlesi Maldwyn a Mynwy ac Aberhonddu

Cafodd 40 mlynedd o gyfraniad cymunedol at adfer Camlas Maldwyn ei gydnabod gan 'The Big Dig', digwyddiad dan arweiniad gwirfoddolwyr.
Mae buddiannau economaidd a chymdeithasol y gamlas hon yn dal i gynyddu, gyda buddsoddiad mewn gwelliannau mynediad.

Ailagor Camlas Mynwy ac Aberhonddu ar gyfer tymor ymwelwyr 2009 oedd ein her fwyaf, ac roeddem wrth ein bodd i ni lwyddo. Mae cyfraniad enfawr y ddyfrffordd hon at yr economi - dros 3 miliwn o ymweliadau blynyddol yn cynhyrchu £17 miliwn o refeniw – yn sicrhau bod y prosiect yn cael blaenoriaeth a hoffem ddiolch i bawb am eu cymorth. Er mwyn cynnal y twf hwn, mae ein Grŵp Gweithredu Strategol ymroddgar yn darparu rhyngwyneb sylfaenol, gan sbarduno agenda economaidd a chymdeithasol y dyfrffyrdd ledled y De-ddwyrain.

ADOLYGIAD YR ALBAN

Ers datganoli, mae ein gweithgareddau yn yr Alban wedi cael eu noddi a'u hariannu gan Lywodraeth yr Alban. Heddiw, mae ein gweithgareddau amrywiol yn cael eu halinio'n strategol i helpu i ddarparu Diben Llywodraeth yr Alban sef twf economaidd cynaliadwy ac 'Amcanion Strategol' ar gyfer gwlad sy'n Gyfoethocach a Thecach; Iachach; Diogelach a Chryfach; Doethach a Gwyrddach.

Dros y degawd diwethaf, mae hyder Llywodraeth yr Alban yng nghyfraniad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol camlesi'r Alban, a adlewyrchir gan fuddsoddiadau grant a buddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith, wedi ysgogi £342 miliwn o fuddsoddiad preifat a bron i 4,000 o swyddi gyda'r potensial i gynhyrchu llawer mwy os bydd y buddsoddiad yn parhau ar y lefelau presennol.

Cawsom grant o £11.8 miliwn ar gyfer 2009/10 (2008/09: £11.6m). Yn ystod y flwyddyn, aethom ati i barhau i geisio sicrhau effeithlonrwydd er mwyn cyflawni'r targed effeithlonrwydd o £0.75 miliwn a bennwyd gan Lywodraeth yr Alban erbyn mis Mawrth 2011. Roedd hyn yn cynnwys ad-drefnu a mwy o sylw i wella perfformiad masnachol yn y Falkirk Wheel.

Daw'r cylch grantiau tair blynedd cyfredol i ben gydag £11.5 miliwn ar gyfer 2010/11 a fydd yn gofyn i ni ganolbwyntio mwy nag erioed ar sbarduno a darparu effeithlonrwydd.

Yn ystod y flwyddyn, yn unol â Chymru a Lloegr, rydym wedi cydlynu'n agos â Llywodraeth yr Alban ar gynigion mewn perthynas â dod yn ymddiriedolaeth elusennol ac wedi gofyn am farn rhanddeiliaid o bob cwr o'r wlad.

Cyfoethocach a Thecach; Diogelach a Chryfach

Mae gwaith partneriaeth agos yn rhan allweddol o'r gwaith o ddarparu cyrchfannau a phrosiectau twristiaeth o'r radd flaenaf.
Cafwyd cynnydd da yn y mentrau canlynol.

Yr HELIX

Yn ystod y flwyddyn, aeth y gwaith paratoi ar gyfer y gamlas newydd yn ei flaen gyda'i dau osodiad 'Kelpie' enfawr a fydd wrth graidd y 'parc eco' 300 hectar hwn rhwng Falkirk a Grangemouth. Bydd y gamlas newydd yn gwireddu dyheadau Llywodraeth yr Alban wella mynediad i Gamlas y Forth & Clyde o arfordir dwyreiniol yr Alban. Bydd gwaith cychwynnol y prosiect hwn, dan arweiniad ein partneriaid Cyngor Falkirk a'r Central Scotland Forest Trust, yn dechrau yn ystod Haf 2010.

Gorllewin Swydd Dunbarton

Gyda Chyngor Gorllewin Swydd Dunbarton, buom yn parhau i archwilio ein syniadau uchelgeisiol ar gyfer Camlas Lomond newydd, yn cysylltu'r Clyde a Loch Lomond. Er mai atal llifogydd a rheoli dŵr ledled yr ardal yw'r prif flaenoriaeth, byddai camlas newydd hefyd yn sbarduno adfywio.

Lociau Speirs

Mae partneriaeth ragorol gyda Chyngor Dinas Glasgow a'n cyd-fenter ISIS yn cwmpasu coridor camlesi Glasgow yn ei gyfanrwydd ac, eleni, mae'r broses gynllunio wedi mynd rhagddi'n dda iawn. Mae menter Lociau Speirs wedi derbyn cydnabyddiaeth eang ond, yn bwysicach fyth, mae'n cael ei gwireddu bellach. Bydd y Landscape Link, sef llwybr o flodau metel lliwgar uchel sy'n 'cysylltu' canol y ddinas a Chamlas y Forth & Clyde, yn cael ei gwblhau cyn hir. Mae chwarter creadigol newydd y ddinas, yn yr ardal o amgylch Lociau Speirs, eisoes yn gartref i sefydliadau adnabyddus, gan gynnwys Scottish Opera a Theatr Genedlaethol yr Alban.

Edinburgh Quay

Er gwaethaf marchnad eiddo anodd tu hwnt, llwyddwyd i werthu Cyfnod 2 y gyd-fenter defnydd cymysg arorbyn hon gyda Miller Developments. Mae Edinburgh Quay yn rhan o'r amcanion ehangach ar gyfer coridor yr Union Canal sydd bellach yn cael ei groesawu gan Gyngor Dinas Caeredin.

Ardrishaig ar Gamlas Crinan

Mewn partneriaeth â Chyngor Argyll a Bute, cwblhawyd rhaglen uwchgynllunio ac ymgysylltu â'r gymuned gennym.
Rydym bellach yn edrych ar ffrydiau ariannu posibl i helpu i ysgogi cyfnodau cychwynnol yr adfywio.

Basn Muirtown, Inverness

Gwnaed cynnydd sylweddol i wireddu'n hawydd i greu ardal ddŵr fywiog o amgylch y marina ym Masn Muirtown wrth i ni symud tuag at gytundeb gyda'r Highland Council.
Rydym yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o ymestyn y marina, a'n gobaith yw y bydd hyn yn ysgogi buddsoddiad pellach mewn maes y nodwyd yn y cynllun lleol newydd bod angen ei adfywio.

Tamfourhill, Falkirk
Nododd rhaglen ymgysylltu â'r gymuned dan arweiniad ein partneriaid, Cyngor Falkirk, gyfnodau cyntaf ein dymuniad i greu ardal breswyl a hamdden ddeniadol o amgylch y Falkirk Wheel. Cyflwynir cais cynllunio yn y dyfodol agos.

Iachach
Fe wnaethom barhau i gefnogi sbardunau gan y llywodraeth yn lleol a chenedlaethol i wella ffitrwydd a hamdden awyr agored yn yr Alban. Cafwyd rhaglen o ddigwyddiadau, yn cynnwys: yr Edinburgh Canal Festival gyntaf, a lansiwyd gan y Gwir Anrhydeddus Alistair Darling AS; y Royal Highland Show; Bigman 2 ym Maryhill; y Kirkintilloch Canal Festival; a'n cyfraniad at Homecoming Scotland 2009, The Crossing on the Caledonian Canal, a llwyddwyd i ymgysylltu â thua 209,000 o bobl (2008/09: 93,500).

Ymwelodd bron i 1.9 miliwn o bobl â chamlesi'r Alban 24.4 miliwn o weithiau sydd, er gwaethaf gaeaf caled, yn cymharu'n dda â ffigurau'r llynedd (2008/09: 24.5m).

Cafodd ein hymdrechion i hyrwyddo'r gamlas fel dyfrffordd gynhwysol a hygyrch eu cefnogi gan Sustrans, a lansiodd Lwybr Beicio Cenedlaethol 754 ar hyd y llwybrau tynnu rhwng Caeredin a Glasgow. Cafwyd cefnogaeth hefyd gan y Scottish Federation for Coarse Angling a'n gobaith yw y byddant yn ein helpu i annog mwy o blant dan 16 oed mewn ardaloedd difreintiedig i fynd allan i fwynhau'r glannau.

Buom yn parhau i gefnogi mentrau cymdeithasol fel menter lwyddiannus Re-Union Canal Boats a chymdeithasau camlesi iseldirol gan gysylltu â thua 40,000 o bobl dros y flwyddyn.

Bu'r Waterways Trust Scotland (TWTS) yn parhau i annog y sector gwirfoddol a chymunedol i gymryd rhan, gan fynd y tu hwnt i darged eleni trwy godi £0.75 miliwn ac ymgysylltu â 14,033 o bobl trwy fentrau'n cynnwys yr Action Outdoors Activity and Learning Centre, y Green Action Project (Falkirk), Feet First a Bigman 2. Hefyd, denodd TWTS 655 o wirfoddolwyr unigol a ddarparodd 984 o ddiwrnodau gwirfoddoli (2008/09: 880) gyda gwerth o £83,000, sef bron dwywaith y llynedd (2008/09: £44,000).

Addawodd Cyngor Dinas Glasgow a Chyngor Dinas Caeredin £1.3 miliwn ar gyfer gwaith ar lwybrau tynnu yn 2009/10 a 2010/11. Ysgogodd prosiect £0.4 miliwn a ariannwyd gan Gyngor Dinas Glasgow yn ystod y flwyddyn gynnydd o 30% yn y defnydd o lwybrau tynnu.

Chwaraeon rhwyfo a chychod
Cafodd 3,722 o gychod eu trwyddedu yn yr Alban yn 2009/10 (2008/09: 3,354), gan adlewyrchu blwyddyn gref ar Gamlesi Caledonian a Crinan.

Yn ôl yr arolwg blynyddol ar foddhad perchnogion cychod, byddai 84% yn dueddol o argymell camlesi'r Alban, cynnydd o bron i 10% (2008/09: 76%).

Gan fanteisio ar y farchnad chwaraeon rhwyfo sy'n tyfu mewn poblogrwydd, aethom ati gyda'r Highland Council, Scottish Natural Heritage (SNH), Forestry Commission Scotland a'r Scottish Canoe Association, aethom ati i sicrhau £0.6 miliwn o gyllid ar gyfer llwybr canŵod ffurfiol cyntaf yr Alban - y Great Glen Canoe Trail ar Gamlas Caledonian.
Mae hyn yn atgyfnerthu partneriaeth a ddatblygodd y 'Great Glen Ways', a enillodd llu o wobrau, gan annog ymwelwyr i feicio, cerdded a defnyddio cychod i deithio trwy'r rhanbarth.

Doethach
Fe wnaethom barhau i ddatblygu mentrau addysgol i hyrwyddo bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol ar y camlesi.

Yn ogystal â chroesawu'r miliynfed ymwelydd cwch i'r Falkirk Wheel, datblygwyd gweithdai addysgol newydd gennym sy'n ategu Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban a datblygu cynlluniau ar gyfer ardal dysgu a chwarae newydd ar y dŵr.

Aethom ati i ddatblygu rhaglen gysylltiedig â'r cwricwlwm ar gyfer Camlas Caledonian, a llwyddodd ein rhaglen Wildlife Safari/Heritage Hunt gyntaf, dan arweiniad TWTS a'r Forth & Clyde Canal Society, i ymgysylltu â thua 400 o blant ysgol gynradd Glasgow.

Gyda'n partneriaid yn y prosiect Dalriada yn Argyll, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, datblygwyd paneli rhyngweithiol a phodlediad gennym i ddathlu treftadaeth a bywyd gwyllt ar Gamlas Crinan.

Hefyd, datblygwyd cynlluniau gennym i gynnal a chadw casgliad o dai treftadaeth, gan eu hailwampio i'w troi'n llety gwyliau a fydd ar gael yn ystod digwyddiadau Drysau Agored.

Gwyrddach

Buom yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban a'r Scottish Environment Protection Agency ar botensial rhwydwaith camlesi'r Alban i helpu i reoli ac atal llifogydd, ac fe wnaethom ymuno â'r grŵp llywio sy'n gyrru'r gwaith o greu'r Metropolitan Glasgow Sustainable Drainage Plan (MGSDP). Rydym hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol at ofynion Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewrop a chyflawnodd 85% o'r camlesi statws Potensial Ecolegol Da yn y Scotland River Basin Management Plan cyntaf.

Buom yn ymgysylltu â'r SNH ynghylch nifer o brosiectau pwysig, gan gynnwys atgyweirio Camlas Crinan ger Ardal Cadwraeth Arbennig Moine Mhor.
Law yn llaw â phartneriaid statudol, buom yn cynllunio a darparu rhaglen rheoli coed peryglus bwysig ar gyfer Camlesi Lowland a Caledonian.

Yn ogystal â chynnal y fioamrywiaeth gyfoethog ar gamlesi'r Alban a'i hyrwyddo trwy'r arolwg blynyddol ar fywyd gwyllt, buom yn cynnal ymgynghoriadau (gan gynnwys Strategaeth Dyfodol Diwastraff Llywodraeth yr Alban) gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon ar leihau'r defnydd o ynni a rhannu arfer gorau.

Trwy ein Hymgynghorydd Treftadaeth Uwch, sef swydd a ariennir ar y cyd gyda Historic Scotland, buom yn parhau i reoli'r amgylchedd hanesyddol, gyda'r rhan fwyaf ohono â statws Henebion Cofrestredig.

Rhwydwaith Cefnogol

Rydym yn ddyledus i aelodau gwirfoddol Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban. Maent yn arbenigwyr ym meysydd masnach, yr amgylchedd a gwirfoddoli, a chafwyd cyfraniad gwerthfawr ganddynt i'n trafodaethau ynghylch y trydydd sector.

Rydym hefyd yn parhau i ymrwymo i'r Scottish Canals Development Group, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth yr Alban ac sy'n cynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau cenedlaethol sydd bob yr un â diddordeb cyffredin mewn cynnal ein camlesi bywiog.

Y DYFODOL

Rydym yn benderfynol o ddod o hyd i ffyrdd arloesol fel y gall y dyfrffyrdd ffynnu, er gwaethaf yr anawsterau a ddaw yn sgil yr amodau economaidd presennol. Byddai ein cynnig i symud ein dyfrffyrdd i fod yn ymddiriedolaeth elusennol yn golygu na fyddent yn ddibynnol ar y sector cyhoeddus ond yn hytrach yn nwylo'r bobl.

Unwaith eto, rydym wedi gweithio'n galed i lunio cynlluniau doeth i'n tywys trwy'r blynyddoedd nesaf. Yn y tymor byr, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddod o hyd i ffyrdd o wneud mwy gyda llai.
Yn 2010/11, rydym yn disgwyl y byddwn yn gallu gweld mwy o arbedion effeithlonrwydd yn sgil ein had-drefnu mawr eleni.

Rydym yn ffodus, fodd bynnag, ein bod yn gwarchod ased hynod boblogaidd sy'n cael ei gefnogi'n frwd.
Yn 2009, daeth ychydig dros 13 miliwn o bobl i ymweld â'n dyfrffyrdd, cynnydd o 26% ers 2008. Mewn ymateb i'n harolwg rheolaidd, mae 91% o'r boblogaeth o'r farn bod y system camlesi'n rhan bwysig o dreftadaeth y wlad. Dyna pam mae'n rhaid i ni edrych ar y darlun eang a gweithio tuag at yr hirdymor.

Mae ein cynnig (a lansiwyd ym mis Mai 2009) i symud camlesi ac afonydd y wlad i'r sector elusennol wedi creu llawer o ddiddordeb a thrafod cadarnhaol. Mae'n galonogol bod Llywodraeth newydd y DU am i'r trafod cadarnhaol hwn barhau. Credwn mai symud i fod yn ymddiriedolaeth elusennol yw'r ffordd orau o greu dyfodol cynaliadwy hirdymor ar gyfer y dyfrffyrdd.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Mae'r dirwasgiad, ac yn enwedig yr effaith y mae wedi'i gael ar weithgareddau datblygu eiddo yn ein cyd-fentrau, yn parhau i gael effaith andwyol ar ganlyniadau ariannol Dyfrffyrdd Prydain. Rydym hefyd wedi gorfod lleihau gwerth eiddo i'w datblygu mewn cyd-fentrau i adlewyrchu gwerthoedd cyfredol y farchnad.

Mae'r canlyniad gweithredol hefyd wedi cael ei effeithio gan gyfuniad o ffactorau. Gwnaeth incwm masnachol yn 2008/09 elwa ar bremiwm eiddo untro o £7 miliwn, ond nid yw hyn wedi'i ailadrodd eleni. Yn ogystal, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi gwerthu eiddo buddsoddi sy'n cynhyrchu incwm, sy'n dod i gyfanswm o £65 miliwn, i godi arian, ac adlewyrchir y gostyngiad mewn incwm rhent o ganlyniad yng nghanlyniad eleni. Bu gostyngiad o £4.1 miliwn yn y grant a ddaw i ni gan Lywodraeth y DU trwy Defra, gan effeithio ar gyllid Cymru a Lloegr. Bu cynnydd o £5 miliwn yn y grant y flwyddyn flaenorol gan Defra, i geisio gwneud iawn am ddiffyg gweithredol a chefnogi'r gwaith o gynnal a chadw dyfrffyrdd. I wneud iawn am rai o'r gostyngiadau hyn, bu gostyngiad o £4.8 miliwn yn y gwariant gweithredol trwy gyfuniad o fesurau effeithlonrwydd a chostau rheoli eiddo is. Cafodd y gwariant ar y dyfrffyrdd (ac eithrio costau cymorth technegol) ei gynnal ar oddeutu £101 miliwn, gan arwain at ddiffyg gweithredol o £5.3 miliwn (2008/09: gwarged £5.6 miliwn) ar gyfer y flwyddyn.

O dan Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol, mae'r llog net yn cynnwys y diffyg refeniw net yng nghronfa pensiynau Dyfrffyrdd Prydain sy'n codi oherwydd bod yr incwm ar fuddsoddiadau'n is na'r llog is ar y rhwymedigaethau. Mae'r llog ar y rhwymedigaethau wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol i'r arenillion uwch ar fondiau corfforaethol. Mae llog y gweddill ariannol wedi gostwng oherwydd y cyfraddau isel iawn sy'n daladwy ar adneuon yn y farchnad arian.

Mae gwerth portffolio eiddo buddsoddi anweithredol Dyfrffyrdd Prydain wedi gwella ychydig ar ôl y dirwasgiad, gyda chynnydd o 2% yng ngwerth y portffolio ar gyfer y flwyddyn (£7.8 miliwn), yn erbyn y gostyngiad mewn gwerth o £66.4 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Mewn marchnadoedd eiddo masnachol, roedd y gostyngiadau dybryd yng ngwerthoedd eiddo buddsoddi yn 2008/09 wedi gwella rhywfaint erbyn 2009/10, o ganlyniad i alw buddsoddwyr am brif asedau. Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi elwa yn sgil hyn, gydag arenillion buddsoddi ar brif asedau'n dangos rhywfaint o welliant. Nid yw galw buddsoddwyr am ail eiddo wedi dangos yr un duedd gadarnhaol, fodd bynnag, felly mae arenillion yn dal i fod yn gymharol isel ar gyfer yr asedau hyn ac nid yw'r gwerthoedd wedi gwella rhyw lawer. Mae twf rhent yn dal i gael ei lesteirio gan lefelau cymharol isel y galw gan feddianwyr oherwydd yr amodau economaidd anodd, er bod incwm rhent Dyfrffyrdd Prydain wedi aros yn gyson bob blwyddyn.

O ran gwerth tir datblygu, llwyddodd materion hyfywedd ariannol a mynediad i gyllid banc i gyfyngu ar ragolygon datblygu ac, yn ei dro, arweiniodd hyn at ostyngiad yng ngwerth safleoedd.
Ym mis Tachwedd 2009, rhoddwyd strwythur rheoli sefydliadol newydd ar waith gyda'r nod o sicrhau rheoli mwy effeithiol trwy unedau dyfrffyrdd llai a thimau cenedlaethol o arbenigwyr. Cyfanswm cost yr ad-drefnu, sef taliadau dileu swyddi yn bennaf, oedd £3.9 miliwn. Er gwaethaf y costau ychwanegol hyn, bu gostyngiad o £5 miliwn yng ngwariant gweithredol y flwyddyn.

Mae gwariant ar brosiectau a ariennir gan drydydd parti'n cael ei sbarduno gan y cyllid sydd ar gael, a bu gostyngiad eleni eto yn y gweithgarwch (56%) i £15.9 miliwn (2009: £36.1 miliwn) wrth i waith ar adeiladu prosiectau mawr ddirwyn i ben. Cost net y gweithgarwch hwn i Ddyfrffyrdd Prydain oedd £6.3 miliwn ar gyfer y flwyddyn (2008/09: £6.4 miliwn).

Mae colledion o ganlyniad i gyd-fentrau'n ymwneud yn bennaf â'r dasg o leihau gwerth buddsoddiadau Dyfrffyrdd Prydain yng nghanolfan siopa Gloucester Quays. Mae safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r buddsoddiadau gael eu nodi ar werth sy'n adlewyrchu gwerth teg presennol Gloucester Quays, sy'n is na'r disgwyl ar hyn o bryd gan mai dim ond yn ddiweddar yr agorwyd y ganolfan ac nad yw wedi'i gosod yn llawn hyd yma. Bydd yn cymryd amser i wariant manwerthu a'r galw am siopau gynyddu gan felly wella gwerth buddsoddi'r ganolfan. Mae'r golled ar leihau'r buddsoddiad yng nghyd-fenter y Gloucester Quays wedi'i throsglwyddo i'r gronfa gyfalaf.

Mae cronfeydd grŵp wedi lleihau 7.5% i £350.2 miliwn, gan adlewyrchu'r diffyg a gadwyd ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd yn y diffyg yn y gronfa pensiynau, o £73 miliwn i £95.5 miliwn.

Incwm masnachu

Gostyngodd y cyfanswm incwm grŵp, gan gynnwys cyllid trydydd parti, 16% i £187.1 miliwn.

Cynyddodd incwm premiwm, fforddfraint a rhent eiddo yn y flwyddyn flaenorol oherwydd premiwm hawddfraint eiddo untro. Mae incwm eleni o £35.6 miliwn i'w gymharu ag incwm 2007/08 o £38.9 miliwn ond yn is oherwydd i eiddo buddsoddi gael eu gwaredu'n ddiweddar.

Mae incwm cyfleustodau wedi'i gynnal o dan amodau masnachu pendant ar £21.4 miliwn, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd incwm trwyddedau cychod 11% i £16.8 miliwn oherwydd cynnydd mewn prisiau a llai o osgoi trwyddedau.

Cynyddodd incwm British Waterways Marinas Limited (BWML) 1% i £6.8 miliwn oherwydd cynnydd bach mewn refeniw safleoedd angori.

Cynyddodd incwm safleoedd angori Dyfrffyrdd Prydain 8% oherwydd cynnydd mewn cyfraddau angori yn unol â phris y farchnad a llai o gyfnodau segur.

Gostyngodd grantiau Llywodraeth y DU ar gyfer eleni 6% i £70.2 miliwn o gymharu â £74.3 miliwn yn 2008/9. Cafwyd cynnydd o £5 miliwn yn grant y flwyddyn flaenorol gan Defra i wneud iawn yn rhannol am ddiffyg gweithredol ac i gefnogi rhaglenni gwaith a chynnal a chadw ar y dyfrffyrdd. Ni ddisgwylir y bydd cymorth grant gan Defra yn y dyfodol yn parhau ar y lefel hon ac mae rhywfaint o ostyngiad dros y blynyddoedd nesaf yn hynod debygol o dan yr amgylchiadau presennol mewn perthynas â chyllid cyhoeddus.

Crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn £ miliwn (ac eithrio cost tâl cyfalaf a chymhorthdal Llywodraeth y DU)

	2009/10	2008/09	Newid %
Incwm masnachol			
Cyfraniadau trydydd partïon at waith			
Grantiau llywodraeth			
Cyfanswm refeniw			
Gwariant gweithredol			
Costau prosiectau a ariennir gan drydydd partïon			
Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwaith mawr			
Cyfanswm gwariant			
Elw/(colled) gwarged			
Llog net			
Cyfran enillion a cholledion o gyd-fentrau			
Enillion a wireddwyd o werthu eiddo ac asedau buddsoddi			
Enillion/(colledion) ailbrisio eiddo buddsoddi nas gwireddwyd			
Diffyg cyn treth			
Credyd treth			
Diffyg ar ôl treth			
Cronfeydd cyfunol y Grŵp			

Crynodeb o incwm masnachol y Grŵp £ miliwn	**Grŵp Dyfrffyrdd Prydain**			**Cymru a Lloegr**		**Yr Alban**	
	2009/10	2008/09	Newid	2009/10	2008/09	2009/10	2008/09
Premiwm, fforddfraint a rhent eiddo							
Incwm cyfleustodau a gwerthiant dŵr							
Incwm trwyddedau cychod							
Cyfanswm incwm BWML							
Safleoedd angori Dyfrffyrdd Prydain							
Gwerthiant manwerthu Dyfrffyrdd Prydain**							
Cynnal a chadw ac incwm arall							
Incwm masnachol y Grŵp							
Cyfraniad trydydd partïon at waith £ miliwn							
Cyfraniadau at adfer camlesi							
Cyfraniadau at waith arall a ariennir gan drydydd partïon							
Cyfraniadau trydydd partïon at waith y Grŵp							
Trosiant y Grŵp heb gynnwys cyd-fentrau							
Grantiau gan lywodraethau							
Cyfanswm incwm							

Ystadegau incwm cychod	**Cymru a Lloegr**			**Yr Alban**		
	2009/10	2008/09	Newid	2009/10	2008/09	Newid %
Incwm trwyddedau cychod hirdymor £ miliwn*						
Nifer y trwyddedau cychod hirdymor a roddwyd						
Incwm trwyddedau cychod fesul cwch £						
Incwm safleoedd angori £ miliwn						
Nifer y trwyddedau angori a roddwyd**						
Incwm safleoedd angori fesul trwydded £**						

* Nid yw ystadegau ac incwm trwyddedau cychod yn cynnwys trwyddedau tymor byr sy'n cael eu cynnwys yn y cyfanswm incwm a nodir yn y tabl incwm masnachol y Grŵp uchod.
** Ac eithrio BWML. Mae Cymru a Lloegr yn cynnwys trwyddedau angori 3 blynedd a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Trwyddedau cychod		**Cymru a Lloegr**	
	2009/10	2008/09 wedi'i ail-nodi*	Newid %
Cychod pleser preifat – camlesi ac afonydd			
Gyda phŵer			
Heb bŵer			
Cyfanswm			
Cychod pleser preifat - afonydd			
Gyda phŵer			
Heb bŵer			
Cyfanswm			
Cychod preswyl			
Cychod busnes			
Cyfanswm y trwyddedau hirdymor			

*Mae dadansoddiad 2008/09 o drwyddedau cychod a roddwyd wedi'i ail-nodi i adlewyrchu gwelliannau yng nghywirdeb y data. Ceir manylion ar gychod yn yr Alban ar dudalen 19 yn Adolygiad yr Alban.

Dadansoddiad o gostau gweithredol £ miliwn	**Grŵp Dyfrffyrdd Prydain**			**Cymru a Lloegr**		**Yr Alban**	
	2009/10	2008/09	Newid	2009/10	2008/09	2009/10	2008/09
Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwasanaethau cwsmeriaid							
Gwaith seilwaith mawr							
Carthu camlesi							
Asedau a ariennir trwy waddol							
Timau cenedlaethol a dyfrffyrdd							
Costau cymorth incwm eiddo a hamdden							
Costau gweithredu BWML							
Costau adfer camlesi							
Cost gwaith arall a ariennir gan drydydd partïon							

Costau gweithredol
Cafwyd gostyngiad o 3% yng nghyfanswm y costau gweithredol, ac eithrio cyfraniadau trydydd partïon, £170.2 miliwn.

Mae gwariant cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwasanaethau cwsmeriaid ar lefel debyg i'r flwyddyn flaenorol, sef £68m (2009: 70.9 miliwn).
Mae'r ad-drefnu wedi cynyddu effeithlonrwydd, gan greu 11 o unedau dyfrffyrdd llai a mwy effeithiol, a bydd yn golygu y bydd modd bod yn fwy cyson wrth gynnal a chadw dyfrffyrdd. Mae'r pwyslais parhaus ar Safonau Diogelwch Gofynnol wedi creu gwelliannau i lwybrau mynediad, lociau a safleoedd angori i ymwelwyr. Rydym wedi cydgrynhoi llawer o drefniadau ar wahân drwy ofyn i un partner ddarparu gwasanaethau ledled Cymru a Lloegr i reoli llystyfiant a chyfleusterau. Mae hyn wedi golygu ein bod yn fwy cyson ac effeithiol yn y maes cynnal a chadw.

Cynyddodd gwariant ar waith mawr a charthu camlesi i £33.6 miliwn (2009: £30.7 miliwn) ar gyfartaledd yn unol â'r rhaglen wariant y cytunwyd arni gyda Defra fel rhan o'i chymorth grant.

Mae timau cenedlaethol a dyfrffyrdd yn cynnwys costau'r brif swyddfa, yn Watford, ynghyd â chostau'r timau gweithredol cenedlaethol a'r unedau dyfrffyrdd lleol. Mae'r categori hwn yn cynnwys costau timau sy'n delio gyda chostau diogelwch, technegol a pheirianneg, dŵr a'r amgylchedd, costau cyfreithiol , adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth, y ganolfan gwasanaethau cyllid a gweinyddu, marchnata, cyfathrebu, gwasanaethau cwsmeriaid, archwiliad mewnol, rheoli ariannol a chostau'r cyfarwyddwyr gweithredol a'r Bwrdd.

Mae costau cymorth incwm eiddo a hamdden yn cynnwys y gwariant ar reoli busnesau cyfleustodau, hamdden ac eiddo, lle bu gostyngiad o 12% i £18 miliwn, i'w briodoli i eiddo'n bennaf, lle mae'r gostyngiad yn sgil gwariant rheoli eiddo is a llai o safleoedd segur.

Gostyngodd British Waterways Marinas Limited ei gostau gweithredol i £5.9 miliwn trwy leihau niferoedd staff a chostau marchnata.

Gwarged/diffyg ar weithgareddau gweithredol
Caiff Dyfrffyrdd Prydain ei ariannu'n rhannol gan gymorth grant gan Defra ar gyfer dyfrffyrdd Cymru a Lloegr, a chan Lywodraeth yr Alban ar gyfer dyfrffyrdd yr Alban. Dim ond 'pan fo gwir angen' darperir cymorth grant, ac felly mae Dyfrffyrdd Prydain yn targedu canlyniad adennill costau ar ei gyfrif refeniw gweithredol bob blwyddyn. Ar ôl trosglwyddo colled buddsoddiad Gloucester Quays i gronfeydd cyfalaf, roedd yna ddiffyg gweithredol ar ôl treth o £12.3 miliwn a ariannwyd yn rhannol gan drosglwyddiad arian parod o £7 miliwn o gyfalaf masnachol. Gwnaed trosglwyddiad o £7 miliwn o gronfeydd cyfalaf a wireddwyd i gronfeydd refeniw i adlewyrchu'r trosglwyddiad hwn.

Gweithgareddau gweithredol £ miliwn	**2009/10**	**2008/09**
Elw (gwarged)/(colled) gweithredol		
Cyfran o ganlyniadau cyd-fentrau (ar ôl treth)		
Trosglwyddo colledion parhaol o gyd-fentrau		
Trosglwyddo colledion ailbrisio eiddo o gyd-fentrau		
Llog derbyniadwy		
Llog taladwy		
Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau gweithredol cyn treth		
Treth gorfforaeth y gellir ei phriodoli		
Gwarged/(diffyg) net a gadwyd		

Gweithgareddau eiddo anweithredol £ miliwn	2009/10	2008/09
Elw ar waredu eiddo buddsoddi a gwerthu asedau		
Colledion/enillion nas gwireddwyd wrth ailbrisio eiddo buddsoddi		
Colledion nas gwireddwyd wrth ailbrisio eiddo mewn cyd-fentrau		
Diffygion buddsoddiadau mewn cyd-fentrau		
Diffyg ar weithgareddau eiddo anweithredol cyn treth		
Treth enillion cyfalaf/credyd ar elw gwaredu		
Credyd treth ohiriedig ar enillion nas gwireddwyd		
Diffyg ar weithgareddau eiddo anweithredol ar ôl treth		
Trosglwyddo i gronfeydd cyfalaf a wireddwyd		
Net a gadwyd		

Mae enillion a cholledion nas gwireddwyd ar weithgareddau eiddo anweithredol yn adlewyrchu cynnydd o £7.8 miliwn yng ngwerth y portffolio sy'n gwella rhywfaint ar y diffyg o £66.4 miliwn a gafwyd wrth ailbrisio yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid yng nghyflwr y farchnad.

Mae'r elw o drosglwyddo o gronfeydd cyfalaf yn £3.1 miliwn (2009: £73.6 miliwn), sy'n cynrychioli'r elw ar ailbrisio eiddo buddsoddi, elw ar waredu eiddo buddsoddi net treth y gellir ei phriodoli yn erbyn diffygion cyd-fentrau.

Rheolaeth y Trysorlys a hylifedd
Caiff arian parod ei fuddsoddi yn y farchnad arian am gyfnodau heb fod yn fwy na thri mis. Mae'r arian parod sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

Cyfrifon banc	2009/10	2008/09
	£ miliwn	£ miliwn
Masnachu – cwmni Dyfrffyrdd Prydain		
Masnachu – Is-gwmnïau		
Cyfalaf masnachol		
Cadw mewn cyfrifon trydydd parti ar gyfer adfywio		

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn defnyddio hylifedd dros ben yn y cyfrif cyfalaf masnachol i reoli'r risg o fenthyca mewn cyd-fentrau. Mae ymwneud Dyfrffyrdd Prydain â'r marchnadoedd arian yn gymharol isel, ac mae'n mynd ati'n ddiwyd i reoli hylifedd. Mae hyn felly wedi sicrhau ei fod mewn sefyllfa ddelfrydol i wrthsefyll unrhyw ansicrwydd yn y marchnadoedd arian.

Gwireddwyd cyfanswm net o £22.5 miliwn (2009: £58.2 miliwn) o arian parod yn ystod y flwyddyn trwy werthu eiddo buddsoddi net y cyfanswm a briodolwyd i fuddsoddi mewn eiddo a thaliadau treth.

Cedwir yr arian parod anweithredol i fodloni rhwymedigaethau treth ac ymrwymiadau ariannu cyd-fentrau. (Gweler y tabl llif arian parod ar dudalen 29)

Rheoli risg hylifedd a benthyca

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn cael ei gynnwys ym mesurau rheoli benthyca'r sector cyhoeddus ac ni chaniateir iddo fenthyca arian na derbyn dyled oni bai yr awdurdodir hynny gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae benthyciadau awdurdodedig Dyfrffyrdd Prydain yn cynnwys benthyciadau gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, o'r Port of London Properties a chyfleuster gorddrafft o £3 miliwn. Mae benthyciadau cyfalaf gweithio ar gael gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar sail 'yn ystod y flwyddyn' hyd at y cyfyngiad benthyca awdurdodedig o £35 miliwn ar gyfer yr holl fenthyca a dyled.

Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain fuddiant mewn nifer o gyd-fentrau datblygu eiddo sy'n fusnesau annibynnol a ariennir yn annibynnol gyda dyled banc allanol heb atebolrwydd i Ddyfrffyrdd Prydain. Ym mhob un o'r cyd-fentrau, asesir a ddylai'r taliadau llog ar fenthyciadau gael eu diogelu_ o ystyried cwantwm y ddyled, y cyfnod y bwriedir i'r benthyciadau fod yn ddyledus a sensitifrwydd y prosiect i newidiadau yn y cyfraddau llog.

Cyfran Dyfrffyrdd Prydain o fenthyciadau banc ar gyfer cyd-fentrau	**2009/10**	2008/09
	£ miliwn	£ miliwn
Gloucester Quays		
ISIS Waterside Regeneration		
Waterside Pubs Partnership		
Edinburgh Quay		
Wood Wharf		
Arall		

Ar 31 Mawrth 2010, cyfran Dyfrffyrdd Prydain hefyd o fenthyciadau banc ar gyfer cyd-fentrau oedd £78.8 miliwn (2009: £84.6 miliwn). O'r benthyciadau hyn, mae 78% (2009: 65%) naill ai ar gyfraddau llog sefydlog neu'n amodol ar gyfnewid cyfradd llog sefydlog.

Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain fenthyciadau gan Port of London Properties (POLP) ar gyfradd llog gyfnewidiol, sef 1% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Y cyfanswm oedd yn ddyledus i POLP oedd £12.9 miliwn yn 2010 a 2009.

Gostyngodd benthyciadau hirdymor £0.8 miliwn i £5.2 miliwn, sef 1.5% (2009: 1.8%) o gyfanswm y cronfeydd.

Cronfa bensiwn

Yn unol â chronfeydd pensiwn tebyg eraill yn ystod y flwyddyn, digon tebyg fu hanner yr asedau buddsoddi â'r farchnad arian gyffredinol, gan ddangos cynnydd mewn gwerth o £51.9 miliwn, neu 23% o gymharu â'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Ar 31 Mawrth 2010, 74% (2009: 76%) oedd y rhwymedigaethau a gwmpaswyd gan werth asedau. Mae'r golled actiwaraidd ar rwymedigaethau o £60.4 miliwn yn adlewyrchu'r cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau a achosir gan ostyngiad yn y gyfradd ddisgownt.

Mae'r tabl pensiynau gyferbyn yn dangos symudiad y gronfa bensiwn yn seiliedig ar safon cyfrifyddu IFRS ar gyfer pensiynau, IAS 19. Caiff y diffyg o £95.5 miliwn ar y gronfa ar 31 Mawrth 2010 ei ariannu dros gyfnod sy'n sicrhau bod y diffyg yn cael ei ddileu, gan roi sylw arbennig i fforddiadwyedd a'r cyllid sydd ar gael.

Bob tair blynedd, mae hi'n ofynnol i ymddiriedolwyr y Gronfa gael y gronfa wedi'i phrisio gan actwari annibynnol. Mae canlyniadau'r prisiad actiwaraidd a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2010 wrthi'n cael eu cwblhau gan yr ymddiriedolwyr, a chânt eu cyflwyno i'r rheoleiddiwr pensiynau.

Llif arian parod	2009/10	2008/09
	£ miliwn	£ miliwn
Gwarged/(diffyg) gweithredol		
Eitemau anariannol yn y golled weithredol		
Symudiad mewn cyfalaf gweithio a darpariaethau		
Llog net sy'n dderbyniadwy		
Llif arian parod gweithredol		
Gwariant cyfalaf gweithredol (net)		
Prynu eiddo buddsoddiad		
Gwaredu eiddo buddsoddiad		
Buddsoddi mewn cyd-fentrau		
Buddrannau o gyd-fentrau		
Trethu		
Llif arian parod net		
Balansau arian parod ar 31 Mawrth		

Crynodeb o newidiadau i ddiffyg y gronfa bensiwn	2009/10		2008/09
	£ miliwn		£ miliwn
Diffyg ar 1 Ebrill			
Cost gwasanaethau cyfredol			
Addasiad cost am wasanaeth a roddwyd			
Disgownt o ddirwyn I ben rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn			
Elw ar asedau'r cynllun pensiwn			
Enillion/(colledion) actiwaraidd			
Cyfraniadau mewn arian parod gan y cyflogwr			
Diffyg ar 31 Mawrth			
Asedau a rhwymedigaethau yn y cynllun pensiwn			Newid %
Gwerth asedau ar y farchnad			
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau			
Diffyg			
Cyllid			

Crynodeb o symudiadau ar y gronfa refeniw wrth gefn			
£ miliwn	Gweithgareddau Gweithredu	Diffyg Pensiwn	Cyfanswm
Balans ar 1 Ebrill 2009			
Diffyg ar weithgareddau gweithredol ar gyfer y flwyddyn ar ôl treth			
Cynnydd yn rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn net treth ohiriedig			
Trosglwyddo cronfeydd cyfalaf wrth gefn a wireddwyd			
Balans ar 31 Mawrth 2010			

Mantolen
Mae cronfeydd grŵp wedi gostwng £28.5 miliwn i £350.2 miliwn (2009: £378.7 miliwn), sef gostyngiad o 7.5%. Mae'r gostyngiad hwn yn cynnwys cynnydd yn niffyg y gronfa bensiwn o £13.1 miliwn, net treth ohiriedig a diffyg gweithredol o £5.3 miliwn.

Mae'r cronfeydd refeniw wedi'u rhannu yn y tabl uchod i ddangos diffyg y gronfa bensiwn ar wahân i'r cronfeydd refeniw cronedig ar weithgareddau gweithredol.

Rheoli risg
Diogelwch cwsmeriaid, contractwyr a gweithwyr cyflogedig ar y dyfrffyrdd yw prif flaenoriaeth Dyfrffyrdd Prydain. Mae Dyfrffyrdd Prydain bob amser yn ceisio gwella'i brosesau diogelwch. Mae hyfforddiant diogelwch, gweithdrefnau, arwyddion, arolygu rheolaidd a chynnal a chadw asedau a datblygu cymwyseddau perthnasol yn enghreifftiau o fframwaith diogelwch Dyfrffyrdd Prydain.

Mae'r adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 41 yn amlinellu agwedd Dyfrffyrdd Prydain. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd parhau i EGLURO risgiau, sicrhau bod prosesau rheoli effeithiol ar waith ac ymgorffori gweithdrefnau rheoli risg yn niwylliant Dyfrffyrdd Prydain.
Mae'r prif risg yn deillio o'r seilwaith dyfrffyrdd a gweithgareddau masnachol.

Mae deddfwriaeth a rheoliadau'n golygu bod Dyfrffyrdd Prydain yn agored i newidiadau mewn safonau cytunedig, o ystyried natur ein gwaith a'n cyfrifoldebau.
Bydd yr effaith yn gliriach wrth i'r gofynion llawn ddod i'r amlwg, er enghraifft, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae partneriaethau'n darparu ffynonellau angenrheidiol a phwysig o gyllid ychwanegol. Mae'r mentrau hyn yn golygu bod modd archwilio asedau Dyfrffyrdd Prydain ymhellach trwy ddefnyddio arbenigedd datblygu a chronfeydd buddsoddi allanol. Mae prosesau wedi'u datblygu i leihau risg wrth ddewis partneriaid cyd-fentrau. Mae ein cyd-fentrau'n cynnwys datblygiadau eiddo sylweddol sy'n cyflwyno amrywiaeth o risgiau masnachol.

Mae arbenigedd partneriaid yn gwneud cyfrannu'n weithredol at y meysydd hyn i reoli risgiau'n effeithiol o fewn cyfyngiadau'r cylch economaidd ehangach.

Gall datblygiad a newid sefydliadol greu nifer o risgiau cysylltiedig, er enghraifft, ymddygiad ar gyfer cysondeb wrth ddatblygu safonau, gwasanaethau cwsmeriaid a diogelwch mewn modd cost-effeithiol. Mae Dyfrffyrdd Prydain yn rheoli'r risgiau hyn trwy godau arfer gorau i sicrhau masnachu teg, technegau rheoli prosiect cydnabyddedig, cyfathrebu, arfarniadau perfformiad rheolaidd a chynlluniau datblygu unigol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau busnes parhaus. Bydd y rhain yn arbennig o berthnasol wrth i ni ystyried symud i'r trydydd sector. Bydd Dyfrffyrdd Prydain yn addasu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod yr holl risgiau materol yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso a bod mesurau rheoli digonol ar waith i leihau'r risgiau hyn.

Cyflawnir amodau cynaliadwy trwy barhau i arolygu, asesu a blaenoriaethu camau gwella canlyniadau difrifol os byddant yn methu, gyda chydbwysedd o waith hanfodol i'w cwblhau.

Mae amcanion ehangach Dyfrffyrdd Prydain yn ymrwymo i ddarparu buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol a threftadaeth. Mae holl asedau treftadaeth y cwmni'n cael eu hasesu'n rheolaidd. Defnyddir asesiadau risg yn unol â chod ymarfer amgylcheddol Dyfrffyrdd Prydain gyda'r gwaith a gyflawnir. Yn ogystal, mae Dyfrffyrdd Prydain wedi cyflwyno targedau cynaliadwyedd i leihau effaith allyriadau carbon a'r defnydd o adnoddau. Caiff rigiau diogelwch, fandaliaeth a rhwystrau i fynediad i bawb eu rheoli gan rôl addysgol ac ymgysylltu â chymunedau Dyfrffyrdd Prydain trwy sefydliadau sy'n weithgar ym meysydd cynhwysiant cymdeithasol a gwirfoddolwyr.